City & Guilds

# Cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

## Deunyddiau Dysgu – Cynllun Marcio Oedolion

**Chwefror 2024**



# Contents

Deunyddiau Dysgu – Cynllun Marcio ....................1
**Astudiaeth Achos – Audrey** ....................3
**Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Audrey** ....................5
**Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Audrey** ....................10
**Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Audrey** ....................15
**Astudiaeth Achos – George** ....................20
**Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – George** ....................22
**Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – George** ....................26
**Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – George** ....................30
**Astudiaeth Achos – Alwyn** ....................35
**Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Alwyn** ....................37
**Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Alwyn** ....................42
**Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Alwyn** ....................47
**Astudiaeth Achos – Letty** ....................52
**Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Letty** ....................54
**Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Letty** ....................59
**Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Letty** ....................64
**Astudiaeth Achos – South Lodge** ....................69
**Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – South Lodge** ....................71
**Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – South Lodge** ....................77
**Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – South Lodge** ....................82
**Astudiaeth Achos – Mair** ....................87
**Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Mair** ....................89
**Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Mair** ....................95
**Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Mair** ....................101

# DIWEDDARIAD CHWEFROR 2024

## Deunyddiau Dysgu – Cynllun Marcio

**Diweddarwyd Chwefror 2024:**
Nid yw'y astudiaeth achos hon a'r papurau prawf cysylltiedig bellach yn rhan o'r meini prawf asesu ar gyfer cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd 8040-02.

Mae'r deunyddiau hyn wedi'u darparu i gefnogi canolfannau ac ymgeiswyr at ddibenion asesu ac adolygu ffurfiannol yn unig.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd a diweddariad strategaeth asesu Ionawr 2024, ewch i:[Update] Changes to Level 2 HSCCC Core assessments | Health and Care Learning Wales.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys yr astudiaeth achos a'r cynllun marcio **yn unig.**

Ar gyfer papurau prawf cysylltiedig, lawrlwythwch:

| | | |
|---|---|---|
| Audrey | Cwestiwn Set A, B and C | Unedau 001 a 003 |
| George | Cwestiwn Set A, B and C | Unedau 001 a 003 |
| Alwyn | Cwestiwn Set A, B and C | Unedau 001 a 005 |
| Letty | Cwestiwn Set A, B and C | Unedau 001 a 005 |
| South Lodge | Cwestiwn Set A, B and C | Unedau 001 a 006 |
| Mair | Cwestiwn Set A, B and C | Unedau 001 a 006 |

## Astudiaeth Achos – Audrey

Rydych chi'n mynd i ddarllen astudiaeth achos am gartref gofal preswyl Harbour House. Byddwch chi'n darllen am y bobl ganlynol fel rhan o'r astudiaeth achos hon:

| | |
|---|---|
| Audrey | Unigolyn yn Harbour House |
| Sandra | Gweithiwr gofal a chefnogaeth yn Harbour House |
| Kelly | Y cydlynydd gweithgareddau yn Harbour House |
| Rheolwr Sandra | Rheolwr yn Harbour House |

Dydy'r astudiaeth achos hon ddim yn seiliedig ar sefydliad nac unigolion go iawn.

Mae Harbour House yn gartref gofal preswyl sefydledig sy'n cynnwys uned gofal dementia. Nod Harbour House yw cynnig gofal person-ganolog er mwyn bodloni anghenion unigolion. Mae'r staff wedi'u hyfforddi i gefnogi unigolion â gwahanol symptomau dementia fel colli cof ac anawsterau lleferydd ac iaith. Mae'r cartref yn hybu annibyniaeth unigolion i'w helpu nhw i fyw'n dda gyda dementia am gyfnod mor hir â phosibl. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio gyda llawer o sefydliadau lleol i greu 'cymuned sy'n ystyriol o ddementia'.

Mae Audrey yn 82 oed ac mae hi wedi cael diagnosis o ddementia. Cafodd hi ei chefnogi gan ei theulu i fyw yn ei chartref ei hun am flynyddoedd lawer ond aeth pwysau gofalu am Audrey yn ormod iddyn nhw a gyda chymorth eiriolwr annibynnol penderfynodd hi symud i Harbour House.

Pan oedd hi gartref, roedd Audrey yn defnyddio ei ffrâm gerdded i symud o gwmpas. Ers iddi symud i'r cartref, mae Audrey wedi bod yn anghofio defnyddio ei ffrâm gerdded ac mae hi'n aros yn ei hystafell am y rhan fwyaf o'r amser. Mae hi wedi dechrau magu pwysau a gan nad ydy hi'n defnyddio ei ffrâm gerdded, yn aml dydy hi ddim yn llwyddo i gyrraedd y toiled mewn pryd.

Mae Audrey hefyd yn dangos arwyddion o iselder ac yn defnyddio llai o gyfathrebu geiriol na phan oedd hi'n byw gartref. Er enghraifft, mae hi'n gallu bod yn anodd cyfathrebu ag Audrey am ddewisiadau prydau bwyd. Pan mae'r staff yn dweud wrthi hi beth yw'r dewisiadau, mae hi'n dweud ie ar gyfer popeth sy'n cael ei gynnig. Mae hi hefyd wedi bod yn defnyddio'r ystum 'codi bawd' i roi cydsyniad ar gyfer gofal personol, er ei bod hi'n aml yn ymddangos fel nad oes ganddi lawer o ddiddordeb. Pan mae'r staff yn ei chefnogi hi i ymolchi, mae hi'n aml yn rhoi'r gorau iddi hanner ffordd drwy'r broses, sy'n dangos ei bod hi wedi cael digon.

Mae Sandra yn weithiwr gofal a chefnogaeth profiadol sy'n pryderu am lesiant Audrey.

Mae hi wedi dechrau ceisio helpu Audrey i adennill rhywfaint o'i hannibyniaeth wrth ei chefnogi hi â'i gofal personol. Er enghraifft, mae hi'n ei hatgoffa hi i fynd i'r toiled yn rheolaidd yn ystod y dydd ac i ddefnyddio ei ffrâm gerdded gymaint â phosibl. Mae Sandra hefyd wedi sylwi bod Audrey yn gwrthod help pan mae gweithwyr gofal a chefnogaeth gwrywol yn cynnig ei chefnogi i fynd i'r toiled, ac mae hyn yn gallu cynyddu ei phroblemau ymataliaeth.

I'w hannog hi i ddod allan o'i hystafell a chymysgu â phobl eraill eto, mae Sandra yn penderfynu darganfod pa weithgareddau hamdden a hobïau gallai Audrey eu mwynhau. Mae Audrey yn dweud ei bod hi'n arfer bod yn hoff o drefnu blodau, yn enwedig i'r eglwys leol, a'i bod hi'n arfer gweithio yn yr ardd gyda'i diweddar ŵr.

Mae Sandra yn gofyn i Kelly, y cydlynydd gweithgareddau, ddod i siarad â hi ac Audrey am y posibilrwydd o drefnu gweithgareddau byddai Audrey yn eu mwynhau. Mae hi'n dangos diddordeb yn y syniad o dyfu blodau yn y tŷ gwydr a dod â nhw i'r cartref i roi lliw i'r lle. Mae Kelly yn awgrymu y gallen nhw fynd am dro o gwmpas yr ardd bob wythnos i bigo blodau i Audrey eu trefnu nhw. Mae'r gweithgareddau'n dechrau yr wythnos nesaf.

Mae Sandra hefyd yn trafod ei phryderon am ddirywiad iechyd Audrey gyda rheolwr y cartref gofal yn ogystal â sut mae hi'n ceisio cefnogi ei llesiant meddyliol a chorfforol. Mae'r rheolwr yn trefnu adolygiad iechyd gyda meddyg teulu Audrey.

Mae'r meddyg teulu'n ymweld ag Audrey ac fel rhan o'r adolygiad iechyd mae'n rhoi diagnosis o iselder iddi hi ac yn rhoi presgripsiwn ar gyfer meddyginiaeth. Ar rai diwrnodau mae Audrey yn cytuno i gymryd y feddyginiaeth ac ar ddiwrnodau eraill mae hi'n gwrthod ac yn meddwl ei bod hi'n cael ei gwenwyno. Mae'r rheolwr yn penderfynu trefnu asesiad galluedd meddyliol gydag Audrey, gan gynnwys ei theulu, gweithiwr cymdeithasol a'r meddyg teulu. Canlyniad yr asesiad hwn oedd nad oedd gan Audrey y galluedd i wneud penderfyniad am ei meddyginiaeth. Y penderfyniad oedd bod cymryd y feddyginiaeth er budd pennaf Audrey ac y byddai gweithwyr Harbour House yn parhau i'w hannog hi i'w chymryd ac yn adolygu'r sefyllfa. Fodd bynnag, rai dyddiau'n ddiweddarach mae Audrey yn mynd yn fwy a mwy cyndyn i gymryd y feddyginiaeth. Mae Sandra yn awgrymu wrth y rheolwr y gallai'r tabledi gael eu malu a'u rhoi yn niod Audrey fel na fyddai hi'n gwybod ei bod hi'n eu cymryd nhw.

Mae'r rheolwr yn bryderus am yr awgrym hwn ac yn esbonio'r goblygiadau posibl y gallai hyn eu hachosi. Mae hi'n cyfeirio Sandra at bolisïau a gweithdrefnau'r cartref, yn ogystal â'r cod ymddygiad a'r ddyletswydd gofal. Mae hi hefyd yn siarad â Sandra am hyfforddiant arall fyddai'n ddefnyddiol i'w helpu hi i ddeall pam byddai ei syniad yn achosi problem ddiogelu.

# Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Audrey

| Cynllun Marcio –Cwestiwn Set A Audrey | | |
|---|---|---|
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 003: Iechyd a llesiant (oedolion)** | |

| **Cwestiwn** | **Canllaw ateb** | **Uchafswm marciau** |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob mantais sydd wedi'i rhoi hyd at uchafswm o 4 marc. Gellir cael marciau drwy ddarparu naill ai cymysgedd o fanteision emosiynol neu gymdeithasol; neu gellir cael marciau llawn drwy ddarparu dim ond 4 o fanteision emosiynol derbyniol neu 4 cymdeithasol derbyniol.<br><br>**Cymdeithasol**<br>○ gallu gwneud ffrindiau newydd yn y lleoliad<br>○ rhyngweithio â phreswylwyr eraill a staff<br>○ dod i adnabod pobl yn well<br>○ cryfhau perthnasoedd/ymddiriedaeth â staff<br><br>**Emosiynol:**<br>○ efallai y bydd yn teimlo ei bod yn cael ei gwerthfawrogi/ei chynnwys<br>○ magu hyder Audrey<br>○ ennill ymdeimlad o bwrpas – (e.e. defnyddio sgiliau sydd ganddi eisoes fel garddio)<br>○ urddas / hunanwerth o allu cyflawni rhywbeth<br>○ gallai deimlo llai o iselder / ymlacio / bod yn hapusach<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Magu pwysau<br>• Llai o symudedd<br>• Anymataliaeth<br>• Ynysu cymdeithasol<br>• Iselder<br>• Colli annibyniaeth<br>• Colli hyder/diffyg hunan-barch<br>• Colli sgiliau<br>• Colli cyfathrebu | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob peth a roddir hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• I gael y driniaeth feddygol gywir h.y. cefnogaeth gan feddyg teulu<br>• I gael y gofal cywir gan y lleoliad<br>• I archwilio unrhyw resymau sylfaenol dros newidiadau (e.e. haint)<br>• I atal dirywiad pellach<br>• Mae'n ddyletswydd gofal i Sandra<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae'n atal anymataliaeth<br>• Mae'n hybu annibyniaeth<br>• Mae'n atal trallod/embaras<br>• Mae'n cynnig dewis o ran pryd i ymweld<br>• Mae'n hybu cyfranogiad gweithredol<br>• Mae'n sefydlu trefn ddyddiol/yn symbylu'r cof<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob canlyniad sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc<br><br>• Arwain at gwynion gan deulu Audrey<br>• Arwain at archwiliad/achos cyfreithiol<br>• Arwain at gamau disgyblu i'r gweithwyr<br>• Arwain at godi pryderon am ddiogelu<br>• Gallai gael effaith negyddol ar sgorau arolygu<br>• Niwed i enw da Harbour House<br><br>**Peidiwch â derbyn**<br>anghenion hyfforddiant/polisïau a gweithdrefnau *(mae hyn wedi'i roi yn yr astudiaeth achos)*<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o'r pethau i'w hystyried. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu unrhyw ystyriaethau yn benodol â sut i'w defnyddio nhw i gefnogi cyfathrebu ag Audrey.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ystyriaethau perthnasol. Mae'r ymateb yn ceisio cysylltu rhai o'r ystyriaethau sydd wedi'u nodi â sut i'w defnyddio nhw i gefnogi cyfathrebu ag Audrey.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o ystyriaethau.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu'r ystyriaethau sydd wedi'u nodi â sut i'w defnyddio nhw i gefnogi cyfathrebu effeithiol ag Audrey.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o amrywiaeth eang o ystyriaethau. Mae'r ymateb yn cysylltu'r ystyriaethau sydd wedi'u nodi yn glir â sut i'w defnyddio nhw i gefnogi cyfathrebu effeithiol ag Audrey.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Defnyddio cymhorthion cyfathrebu (e.e. cymhorthion gweledol)<br>• Ymyriadau yn yr amgylchedd (e.e. sŵn, gormod o bobl)<br>• Gormod o arwyddion yn achosi gorlwytho synhwyraidd<br>• Galluedd Audrey i ddeall iaith<br>• Personoli cyfathrebu (e.e. amser o'r dydd, dewis iaith, lleoliad)<br>• Hwyliau Audrey, anodd prosesu iaith<br>• Defnyddio iaith syml<br>• Effaith/sgil effeithiau meddyginiaeth<br>• Gallu i gadw gwybodaeth ar gof | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Hybu mwy o ddealltwriaeth o ddementia gan bobl yn y gymuned<br>• Hybu cynhwysiant/galluogi mynediad ehangach i weithgareddau a chyfleusterau/ peidio â'u cyfyngu nhw i Harbour House yn unig<br>• Gwella'r amgylchedd ffisegol yn y gymuned ehangach (e.e. gwell arwyddion, cael gwared â rhwystrau, gwell trafnidiaeth)<br>• Cefnogi unigolion i gyfrannu at eu cymuned/cymunedau | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc. Gallai atebion ddod o lais a rheolaeth neu o gydgynhyrchu. Gellir cael marciau llawn wrth gyfeirio at un egwyddor yn unig.<br><br>**Cydgynhyrchu**<br>o Cynllunio gweithgareddau (e.e. Gweithio a Sandra a Kelly)<br>o Gwneud gweithgareddau gyda'i gilydd (e.e. mynd am dro yn yr ardd, tyfu blodau, trefnu blodau)<br>o Cynnwys eiriolwr annibynnol i edrych ar ddewisiadau (e.e. pan mae gormod o bwysau ar y teulu)<br><br>**Llais a rheolaeth**<br>o Beth sy'n bwysig i Audrey (e.e. Siarad ag Audrey am ei hen ddiddordebau)<br>o Cynnig dewis (e.e. prydau bwyd a gweithgareddau)<br>o Defnyddio eiriolwr annibynnol (e.e. Penderfynu symud i Harbour House)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br>• Amlasiantaethol<br>• Atal ac Ymyrryd yn Gynnar<br>• Llesiant | 2 farc |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Bodloni anghenion unigol Audrey (e.e. dod allan o'i hystafell)<br>• Creu cynllun gofal a chefnogaeth person-ganolog (e.e. chwilio am ffyrdd cyfarwydd o wneud pethau)<br>• Cynnal diwylliant, gwerthoedd a chredoau Audrey (e.e. eglwys, garddio)<br>• Deall beth sy'n ei gwneud hi'n anhapus/beth dydy hi ddim yn ei hoffi (e.e. cefnogaeth gweithwyr gofal a chefnogaeth gwrywol)<br>• Hybu annibyniaeth Audrey (e.e. dod i wybod beth mae hi'n gallu ei wneud) | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob asesiad sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Prawf clyw (e.e. oes ganddi hi declynnau clywed)<br>• Prawf golwg (e.e. ydy hi'n gwisgo sbectol/oes angen un arni)<br>• Prawf deintyddol (e.e. ydy hi'n gwisgo dannedd gosod/oes angen rhai arni)<br>Asesiadau sydd wedi'u cynnal gan y tîm asesu Therapi Iaith a Lleferydd<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 003: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Audrey

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set B Audrey | | |
|---|---|---|
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 003: Iechyd a llesiant (oedolion)** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob mantais hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gwella deheurwydd/ cydsymud<br>• Gwella symudedd<br>• Llai o risg o gwympo<br>• Cynnal / colli pwysau<br>• Gweithio'r coluddion yn rheolaidd<br>• Cael awyr iach<br>• Gwella lefelau ffitrwydd (e.e. pwysedd gwaed, cyhyrau cryfach)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Cefnogi cyfathrebu â gweithwyr/eraill<br>• Annog creadigrwydd<br>• Annog cydweithio ag eraill<br>• Cynyddu cyswllt cymdeithasol<br>• Cysylltu â'r hyn sy'n bwysig i Audrey<br>• Gallai ei helpu i ymlacio<br>• Gallai sbarduno atgofion cadarnhaol<br>• Cynnal sgiliau sydd ganddi eisoes (e.e. cydsymud llaw a llygad)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br>• I gyfathrebu â gweddill y tîm ynglŷn â ffeithiau am lesiant Audrey<br>• I roi tystiolaeth o'r newidiadau i ymddygiad Audrey sydd wedi'u harsylwi<br>• I godi pryderon<br>• I adnabod patrymau ymddygiad<br>• I addasu'r gefnogaeth i fodloni'r newid i anghenion Audrey | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae'n ddyletswydd gofal i Sandra.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Byddai'n cael ei ddosbarthu fel cam-drin corfforol<br>• Gallai achosi i Audrey deimlo ei bod hi'n cael ei dadrymuso / diffyg cydsyniad<br>• Colli rheolaeth Audrey oherwydd camddefnyddio pŵer<br>• Mae'n lleihau urddas Audrey/dangos diffyg parch<br><br>**Peidiwch â derbyn**<br><br>• Atebion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, fel dyletswydd gofal *(oherwydd mae'r cwestiwn yn canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng diogelu a llesiant Audrey)*<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am unrhyw beth sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 1 marc.<br><br>• Trefnu bod gweithiwr gofal a chefnogaeth benywol yn cynorthwyo<br>• Cofnodi yn y cynllun personol y byddai'n well ganddi pe bai gweithwyr gofal a chefnogaeth benywol yn ei chynorthwyo i ddefnyddio'r toiled<br><br>Gwneud yn siŵr bod yr holl weithwyr yn ymwybodol o'i dewis<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 1 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am unrhyw ddull hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Defnyddio cymhorthion cyfathrebu (e.e. bwydlen â lluniau)<br>• Defnyddio iaith syml<br>• Paratoi/rheoli'r amgylchedd, lleihau sŵn<br>• Defnyddio iaith y corff neu fod yn ymwybodol ohoni (e.e. wynebu Audrey)<br>• Defnyddio iaith arwyddion sylfaenol/Makaton (e.e. codi bawd)<br>• Rhoi gwybodaeth mewn symiau hylaw/bach | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Dilyn unrhyw ddewisiadau iaith yng nghynllun personol Audrey<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am effeithiau dementia. Dydy'r ymateb ddim yn nodi effeithiau dementia yn benodol, nac yn eu cysylltu nhw o gwbl â'r symudiad.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am effeithiau dementia. Efallai y bydd yr ymateb yn ceisio gwneud rhai cysylltiadau rhwng effeithiau dementia a'r symudiad.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am effeithiau dementia. Bydd yr ymateb yn gwneud cysylltiadau clir rhwng effeithiau dementia a'r symudiad gan gyfeirio rhywfaint at yr effaith ar Audrey.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am effeithiau dementia. Bydd yr ymateb yn gwneud cysylltiad clir rhwng effeithiau dementia a'r symudiad a'r effaith ar Audrey.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys**<br><br>• Gweld pobl dydy hi ddim yn eu hadnabod/llawer o bobl ar wahanol adegau o'r dydd<br>• Anhawster i ddeall yr amser o'r dydd/trefnau dyddiol<br>• Anhawster i ddeall pam mae hi yno/ sut gwnaeth hi gyrraedd<br>• Methu dod o hyd i'w heiddo ei hun<br>• Meddwl ble mae ei theulu / colli ei theulu<br>• Colli annibyniaeth / diffyg symbyliad<br>• Methu / ei chael hi'n anodd dod o hyd i'w ffordd o gwmpas y cartref<br>• Teimlo wedi'i gorlethu<br>Mwy o anawsterau â'r cof | 4 marc |
| 8. (a) | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Y penderfyniad i symud i mewn i Harbour House – cynnwys eiriolwr annibynnol, teulu<br>• Asesiad iechyd / adolygiad iechyd meddwl gan feddyg teulu – wedi'i drefnu gan y Rheolwr i ymdrin â gwaethygiad<br>• Asesiad galluedd meddyliol – ar gyfer meddyginiaeth gyda gweithiwr cymdeithasol, meddyg teulu a theulu a'r Rheolwr | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 8. (b) | **Dyfarnwch 1 marc** am unrhyw reswm hyd at uchafswm o 1 marc.<br><br>• I sicrhau rhannu gwybodaeth i gyflawni'r canlyniad gorau<br>• I rannu ymarfer gorau ar draws gwasanaethau<br>• I ganiatáu i safbwyntiau gwahanol gael eu hystyried<br>• I ddiogelu/cynnal hawliau unigolion<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 1 marc |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob egwyddor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Cydgynhyrchu<br>• Llesiant<br>• Atal ac Ymyrryd yn Gynnar<br>• Llais a Rheolaeth | 2 farc |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob canlyniad sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br>• Peidio â chynnal hawliau dynol/ peidio â hybu dull gweithredu seiliedig ar hawliau<br>• Gallai hyn achosi trallod i Audrey<br>• Mater yn ymwneud â diogelu (e.e. cam-drin)<br>• Peidio â hybu annibyniaeth<br>• Peidio â dilyn dull person-ganolog<br>• Diffyg urddas a pharch<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Darllen y cynllun personol<br>• Siarad ag Audrey<br>• Siarad â theulu Audrey<br>• Rhoi cynnig ar dechnegau gwahanol (e.e. llyfrau, ystumiau llaw)<br>• Arsylwi cyfathrebu di-eiriau<br>• Sylwi ar ymateb Audrey a beth mae hi'n ei ddweud | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 003: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Audrey

| **Cynllun Marcio – Cwestiwn Set C Audrey** | | |
|---|---|---|
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 003: Iechyd a llesiant (oedolion)** | |

| **Cwestiwn** | **Canllaw ateb** | **Uchafswm marciau** |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob ffactor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Llai o symudedd<br>• Diffyg cyfathrebu ynglŷn â dewisiadau ar y fwydlen<br>• Efallai nad yw hi'n gwybod ei bod hi'n llawn<br>• Iselder / bwyta mwy i gael cysur<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Cynnal hawliau unigolion o dan y ddeddf galluedd meddyliol<br>• Darganfod oedd hi'n deall beth oedd pwrpas y feddyginiaeth<br>• Gwneud dewis gwybodus<br>• Gwneud yn siŵr bod cefnogaeth briodol wedi'i rhoi / eu bod nhw wedi gwneud popeth sy'n bosibl<br>• Gwneud yn siŵr bod ganddi gyfle i gymryd y feddyginiaeth allai helpu ei llesiant<br><br>**Peidiwch â derbyn**<br>• Gwneud yn siŵr ei bod hi'n cymryd y feddyginiaeth *(oherwydd pwrpas yr asesiad yw canfod ei gallu i wrthod / neu ddweud na)*<br>• Dyletswydd gofal *(oherwydd mae pwrpas yr asesiad yn canolbwyntio ar lesiant Audrey)*<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am sut mae'r ffyrdd y cefnogir unigolion yn effeithio ar y ffordd maen nhw'n teimlo amdanyn nhw eu hunain.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol â sefyllfa Audrey. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | **Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut mae'r ffyrdd y cefnogir unigolion yn effeithio ar y ffordd maen nhw'n teimlo amdanyn nhw eu hunain. Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng beth mae Sandra'n ei wneud a sut gallai hyn effeithio ar Audrey<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut mae'r ffyrdd y cefnogir unigolion yn effeithio ar y ffordd maen nhw'n teimlo amdanyn nhw eu hunain. Mae'r ymateb yn rhoi rhai cysylltiadau ar gyfer sut mae gweithredoedd Sandra wedi effeithio ar Audrey.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn â sut mae'r ffyrdd y cefnogir unigolion yn effeithio ar y ffordd maen nhw'n teimlo amdanyn nhw eu hunain.<br>Mae'r ymateb yn rhoi enghreifftiau clir a/neu esboniad ar gyfer sut mae gweithredoedd Sandra wedi effeithio ar Audrey.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys**<br><br>• **Effeithiau – gallai hi deimlo**<br>o bod rhywun yn ei gwerthfawrogi<br>o bod rhywun yn gofalu amdani<br>o bod rhywun yn ei pharchu<br>o yn fwy diogel<br>o yn fwy hyderus<br>o bod rhywun yn gwrando arni<br>o yn llai unig<br>o yn hapusach<br><br>• **Beth mae Sandra wedi ei wneud**<br>o dod o hyd i amser i'w dreulio gydag Audrey<br>o dangos diddordeb mewn dod i adnabod Audrey yn well/ gofyn am ei diddordebau<br>o ceisio ei helpu hi â gofal personol (e.e. ei hatgoffa hi i fynd i'r toiled)<br>o darparu dull person-ganolog (e.e. edrych ar ffyrdd o helpu â llesiant corfforol a meddyliol)<br>o gweithredu (e.e. trefnu cerdded yn yr ardd) | |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob canlyniad sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gallai Audrey deimlo pryder/paranoia am agweddau eraill ar ei gofal<br>• Gwrthod cymryd unrhyw feddyginiaeth arall yn y dyfodol<br>• Gwrthod bwyta nac yfed dim byd<br>• Niweidio ymddiriedaeth Audrey/ei theulu yn Harbour House. | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cynyddu ei hiselder<br><br>**Peidiwch â derbyn**<br><br>• Atebion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, fel dyletswydd gofal (oherwydd mae'r cwestiwn yn canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng diogelu a llesiant Audrey)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob canlyniad sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Trallod/aflonyddwch/ newidiadau i ymddygiad<br>• Dicter gan Audrey/ei theulu oherwydd methiant y gwasanaeth<br>• Efallai y bydd hi'n teimlo gormod o embaras i ofyn am help<br>• Peidio yfed digon o hylifau/ bwyta digon – i osgoi bod angen y toiled<br>• Mwy o broblemau iechyd (e.e. haint llwybr wrinol, doluriau gwasgu)<br>• Achosi iddi deimlo'n fwy ynysig (e.e. aros yn ei hystafell, methu â gweld arwyddion)<br>• Torri trefn ymataliaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Defnyddio bwydlenni lluniau/ tabledi electronig<br>• Defnyddio 'plât dangos' / enghreifftiau o opsiynau<br>• Gadael i Audrey ysgrifennu ei dewisiadau<br>• Ystyried yr amser o'r dydd wrth ofyn i Audrey<br>• Rhoi mwy o amser i Audrey i ymateb/meddwl am ei dewisiadau<br>Defnyddio iaith y corff / ystumiau neu fod yn ymwybodol o'r rhain.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob effaith hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Effeithiau straen ar y teulu (e.e. diffyg cwsg, problemau iechyd) | 4 marc |

<table>
<tr><th>Cwestiwn</th><th>Canllaw ateb</th><th>Uchafswm marciau</th></tr>
<tr><td></td><td>
<ul>
<li>Cyfyngiadau ar eu bywyd (e.e. methu mynd i ffwrdd / gorfod yn rheolaidd)</li>
<li>Effeithiau ariannol e.e. costau ychwanegol gofalu am Audrey / lleihau oriau gwaith</li>
<li>Colli cydbwysedd rhwng teulu, gwaith a bywyd</li>
<li>Gwrthdaro posibl yn y teulu (e.e. dros gyfrifoldebau, arian)</li>
<li>Galar, colli'r unigolyn roedden nhw'n ei hadnabod / mae Audrey wedi newid</li>
<li>Teimlo'n euog am fethu â bodloni anghenion Audrey.</li>
<li>Ofn colli rheolaeth dros y sefyllfa / gadael i weithwyr proffesiynol ymwneud â'r mater</li>
<li>Risg o ymddygiad heriol / cael anaf</li>
</ul>
Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.
</td><td></td></tr>
<tr><td>8.</td><td>
Dyfarnwch 1 marc am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.
<ul>
<li>Darganfod beth sy'n bwysig i Audrey / ei dewisiadau / (e.e. siarad am weithgareddau hamdden a hobïau / trefnu bod y cydlynydd gweithgareddau'n siarad ag Audrey)</li>
<li>Ei chynnwys hi mewn gweithgareddau ystyrlon (e.e. y trefnu blodau)</li>
<li>Cynnig dewis (e.e. dewisiadau prydau bwyd)</li>
<li>Helpu i adennill annibyniaeth (e.e. gofal personol / toiled)</li>
<li>Hybu urddas a pharch (e.e. dewisiadau cefnogaeth rhywedd)</li>
<li>Cyfathrebu yn ei hoff ffyrdd hi (e.e. ystumiau)</li>
</ul>
Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.
</td><td>3 marc</td></tr>
<tr><td>9.</td><td>
Dyfarnwch 1 marc am bob egwyddor hyd at uchafswm o 2 farc.
<ul>
<li>Cydgynhyrchu</li>
<li>Amlasiantaethol</li>
<li>Atal ac Ymyrryd yn Gynnar</li>
<li>Llais a Rheolaeth</li>
</ul>
</td><td>2 farc</td></tr>
</table>

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• I ddangos parch<br>• I hybu hawliau dynol Audrey / dull seiliedig ar hawliau<br>• I hybu llais a rheolaeth<br>• I atal camddealltwriaeth / Tybio cydsyniad<br>• I atal camdriniaeth<br>• I hybu annibyniaeth<br>• Dull person-ganolog<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Defnyddio iaith syml.<br>• Dewis yr amser gorau o'r dydd / datblygu trefnau dyddiol<br>• Defnyddio iaith corff agored<br>• Cyfathrebu heb eiriau (e.e. ystumiau, arwyddion)<br>• Ysgrifennu pethau i Audrey (e.e. pethau i'w cofio, digwyddiadau)<br>• Defnyddio tôn y llais (e.e. tawelach, mwy hamddenol)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 003: 20 marc** | **30 marc** |

# Astudiaeth Achos – George

Rydych chi'n mynd i ddarllen astudiaeth achos am George, unigolyn sy'n derbyn gofal gan asiantaeth gofal cartref Gofal Penfro.

Byddwch chi'n darllen am y bobl ganlynol fel rhan o'r astudiaeth achos hon:

| | |
|---|---|
| George | Unigolyn sy'n derbyn gofal gan Gofal Penfro. |
| Gwyneth | Gwraig George. |
| Evan | Mab George. |
| Louise | Gweithiwr gofal a chefnogaeth yn Gofal Penfro |

Dydy'r astudiaeth achos hon ddim yn seiliedig ar sefydliad nac unigolion go iawn.

Mae Gofal Penfro yn asiantaeth gofal cartref sy'n darparu gofal personol a chefnogaeth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ag anghenion gofal cymhleth. Mae'r gweithwyr gofal a chefnogaeth yn cael eu neilltuo i gefnogi unigolion penodol, sy'n eu galluogi nhw i adeiladu perthynas waith dda â phob unigolyn.

Mae George yn 59 oed ac roedd yn arfer bod yn ddylunydd ym myd rasio Fformiwla Un. Mae wedi dioddef o sglerosis gwasgaredig *(multiple sclerosis)* ers 10 mlynedd ac mae'n defnyddio cadair olwyn i symud o gwmpas. Mae'n gallu defnyddio rhywfaint ar hanner uchaf ei gorff ac yn gallu defnyddio ei freichiau a'i ddwylo i wneud llawer o dasgau, ond mae rhai gweithgareddau fel ysgrifennu yn anodd. Mae ffisiotherapydd yn ymweld ag ef unwaith yr wythnos. Nid yw'r sglerosis gwasgaredig yn effeithio ar ei leferydd ar hyn o bryd.

Yn ogystal â sglerosis gwasgaredig, mae George yn ddiweddar wedi cael diagnosis o ddementia yn dechrau'n gynnar. Mae'r dementia wedi effeithio ar ei ymddygiad a sut mae'n rhyngweithio â phobl eraill, oherwydd mae weithiau'n gallu camddeall pethau. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf mae wedi cael ei gefnogi gartref gan ei wraig Gwyneth a'i fab Evan, sy'n astudio dylunio a thechnoleg mewn coleg lleol. Wrth i'w gyflwr ddatblygu, mae ei deulu wedi bod yn darparu gofal personol a chefnogaeth symudedd. Maen nhw wedi cefnogi George i wneud ei weithgareddau yn y gymuned fel ymweld â ffrindiau a mynychu grŵp ffotograffiaeth unwaith yr wythnos. Maen nhw wedi mwynhau mynd ag ef i wahanol leoedd i dynnu ffotograffau.

Ers cael y diagnosis o ddementia, mae'r teulu'n ei chael yn anodd ymdopi â'r newidiadau sy'n digwydd i George. Mae wedi colli diddordeb yn ei ffotograffiaeth ac nid yw'n cyfarfod â'i ffrindiau bellach. Mae'n llai gweithgar ac yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn gwylio'r teledu. Mae hyn yn achosi pryder oherwydd dydy'r teulu ddim yn teimlo eu bod nhw'n bodloni ei anghenion bellach. Mae wedi dysgu byw gyda'r sglerosis gwasgaredig ond mae dementia wedi gwneud ei sefyllfa'n fwy cymhleth. O ganlyniad, mae'n cael ffrwydradau o ddicter sydd wedi arwain at herio Gwyneth yn gorfforol wrth iddi hi ei gefnogi i godi a gwisgo.

Mae George yn cytuno â'i deulu y byddai'n syniad da iddynt gael cefnogaeth allanol. Mae Gwyneth yn cysylltu â Gofal Penfro i ofyn am help. Mae Gofal Penfro yn gweithio gyda George, Gwyneth ac Evan i gytuno ar becyn gofal sy'n nodi anghenion gofal a chefnogaeth unigol George. Mae'n cytuno i dderbyn cefnogaeth symudedd a gofal personol. Maen nhw'n gofyn i George pa gefnogaeth a hoffai i'w alluogi i fyw'n dda gyda'i ddementia a rheoli ei lesiant corfforol. Mae'n sôn am ei ddiddordebau fel rasio Fformiwla Un a thechnoleg. Mae'n gofyn a gaiff fynychu ei grŵp ffotograffiaeth eto ac efallai gyfarfod â'i ffrindiau'n rheolaidd.

Maen nhw'n cytuno y bydd tîm sydd wedi cael hyfforddiant gofal dementia yn ei gefnogi i gyflawni ei amcanion ac maen nhw'n cytuno ar gynllun personol.

Mae Louise yn weithiwr gofal a chefnogaeth sydd wedi gweithio ers blynyddoedd lawer fel rhan o dîm Gofal Penfro ac wedi arbenigo ym maes gofal dementia. Wrth ddarparu gofal personol i George mae hi'n defnyddio teclyn codi nenfwd, cadair cawod a chadair olwyn. Wrth wneud y tasgau hyn mae hi bob amser yn gofyn i George beth yw ei hoff ddewisiadau, er enghraifft cynnig dewis iddo ynglŷn â beth i'w wisgo.

Ar ôl cael argymhelliad gan y ffisiotherapydd, mae Louise yn cefnogi George i sefyll am awr bob dydd drwy ddefnyddio cyfarpar arbenigol. Pwrpas hyn yw lleihau'r risg o ddoluriau gwasgu.

Mae Louise hefyd yn awyddus i'w gynnwys mewn gweithgareddau a fydd yn ei ysgogi ac o ddiddordeb iddo, ac yn hybu ei lesiant emosiynol. Mae Louise yn cymryd yr amser i siarad mwy â George am ei yrfa ym myd Fformiwla Un ac maen nhw'n edrych ar luniau o hyn gyda'i gilydd. Maen nhw'n cytuno i wneud project yn seiliedig ar ffotograffau o'i yrfa. Mae Louise yn awgrymu eu bod nhw'n defnyddio cyfrifiadur i symud y ffotograffau ac unrhyw destun o gwmpas yn electronig. Maen nhw'n trafod y posibilrwydd o ychwanegu cerddoriaeth a sain ac yn gofyn i Evan helpu â hyn.

Mae George yn cytuno y gall Louise ofyn i'w deulu am ei fywyd gwaith. Mae hi'n trefnu eu bod nhw'n rhoi ffotograffau ar y cyfrifiadur iddi hi allu eu defnyddio gyda George. Maen nhw'n dweud wrth Louise bod George yn arfer defnyddio cryn dipyn ar gyfryngau cymdeithasol i gysylltu â'i ffrindiau a phobl eraill sy'n hoff o geir rasio.

Mae Louise yn cynllunio'r gweithgaredd ar gyfer yr wythnos ganlynol ac mae George yn frwdfrydig. Pan mae hi'n cyrraedd, mae ef yn eiddgar i ddechrau'r gweithgaredd ac yn cwblhau ei dasgau gofal personol heb ddangos unrhyw arwyddion o ymddygiad heriol.Mae George yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y project ac ar ddiwedd y sesiwn maen nhw'n postio rhywfaint o'u gwaith ar gyfryngau cymdeithasol. Dros y dyddiau nesaf, mae George yn mwynhau siarad â Louise a'i deulu am y sylwadau cadarnhaol mae'n eu cael gan ei ffrindiau a phobl eraill sy'n hoff o geir rasio ynglŷn â'r post. Mae'n penderfynu anfon e-bost at ei ffrindiau sy'n byw gerllaw i drefnu cyfarfod.

Mae ymddygiad George yn dechrau newid wrth iddo adennill diddordeb yn y pethau roedd yn arfer eu mwynhau.

# Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – George

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set A George | | |
|---|---|---|
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 003: Iechyd a llesiant (Oedolion)** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Helpu George i deimlo'n fwy corfforol abl / teimlo'n fwy cadarnhaol am ei gorff<br>• Gwneud ymarfer corff / endorffinau / gallai wneud i George deimlo'n well<br>• Caniatáu iddo weld rhywbeth gwahanol (e.e. ddim yn ei gadair olwyn)<br>• Helpu George i deimlo fel ei fod yn gwneud cynnydd / i deimlo'n obeithiol (e.e. efallai y gallai sefyll am amser hirach)<br>• Rhoi balchder i George wrth iddo ddangos i'w deulu.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob effaith hyd at uchafswm o 3 marc<br><br>• Doluriau gwasgu<br>• Colli ffyrfder / cryfder cyhyrau<br>• Rhoi pwysau ymlaen<br>• Problemau treuliad (e.e. rhwymedd)<br>• Anhyblygedd yn y cymalau<br>• Gwneud y sglerosis gwasgaredig yn waeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 4 marc<br><br>• Ailddechrau defnyddio cyfryngau cymdeithasol<br>• Ailgysylltu â phobl â'r un diddordebau / ffrindiau<br>• Defnyddio diddordebau / sgiliau presennol o ran technoleg<br>• Gofyn am gael mynd yn ôl i'w grŵp ffotograffiaeth<br>• Louise wedi bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn / ar ddiddordebau a hanes George<br>• Trefnu cyfarfod â'i ffrindiau | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Gweithio gyda Louise ar y project rasio<br>• Siarad am y gorffennol / hel atgofion<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc<br>• Colli cof (e.e. cynlluniau'r teulu)<br>• Anhawster i ddeall / prosesu beth mae pobl yn ei ddweud<br>• Anhawster i gyfathrebu / mynegi ei hun<br>• Anhawster i enwi pethau / dod o hyd i'r gair cywir<br>• Canfyddiad gweledol (e.e. dod o hyd i'w ffordd o gwmpas ei gartref)<br>• Synnwyr o amser (e.e. gwybod pa ddiwrnod / faint o'r gloch yw hi)<br>• Peidio adnabod pobl e.e. ymwelwyr â'r tŷ<br>• Newidiadau i emosiynau / personoliaeth (e.e. ymddygiad allblyg)<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob un hyd at uchafswm o 2 farc<br>• Peidio â chynhyrfu<br>• Defnyddio iaith briodol / osgoi gwrthdaro<br>• Defnyddio tôn llais isel / peidio â gweiddi / codi'r llais<br>• Defnyddio iaith corff agored (e.e. dim croesi breichiau)<br>• Cydnabod teimladau George / Dangos empathi<br>• Stopio'r dasg / rhoi ychydig o lonydd iddo<br>• Ceisio tynnu ei sylw at rywbeth arall<br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r effeithiau.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol â theulu George.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r effeithiau.<br>Mae'r ymateb yn ceisio cysylltu rhywfaint o'r effaith â theulu George.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r effeithiau.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng yr effeithiau a sut maen nhw'n effeithio ar deulu George. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | **Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn â'r effeithiau.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau clir rhwng yr effeithiau a nodwyd a sut maen nhw'n effeithio ar deulu George.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Colli rheolaeth<br>• Gweld y newidiadau / dirywiad yn George<br>• Colli George fel unigolyn / colli tad / colli gŵr<br>• Pryder am ei ymddygiad / gallai George achosi niwed<br>• Ynysigrwydd cymdeithasol (e.e. gallai ffrindiau roi'r gorau i ymweld, efallai y byddant yn teimlo embaras i gael ymwelwyr)<br>• Effaith negyddol ar allu / amser Evan i astudio<br>• Effeithio ar eu llesiant (e.e. blinder, straen, diffyg seibiant oddi wrth ofalu)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc<br><br>• Hybu urddas / parch George<br>• Canolbwyntio ar yr unigolyn<br>• Grymuso George / hybu dewis<br>• Osgoi dryswch / gwrthdaro<br>• Cynnal hawliau George<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Y teulu'n gweithio gyda'r asiantaeth gofal (e.e. trefnu'r pecyn gofal)<br>• Y teulu'n gweithio gyda Louise (e.e. rhoi'r ffotograffau ar y cyfrifiadur)<br>• Y ffisiotherapydd yn rhoi sylw i George i gynorthwyo â'i symudedd<br>• Gwyneth, George ac Evan yn cytuno bod angen cefnogaeth arnynt<br>• Louise a George yn gweithio ar y project rasio<br>• Louise yn dilyn canllaw'r ffisiotherapydd i gefnogi George i sefyll am awr y dydd | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob egwyddor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Gweithio amlasiantaethol<br>• Atal ac Ymyrryd yn Gynnar<br>• Llais a Rheolaeth<br>• Llesiant | 2 farc |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br>• Peidio â chynnal hawliau dynol / peidio â hybu dull gweithredu seiliedig ar hawliau<br>• Gallai achosi trallod i George<br>• Mater yn ymwneud â diogelu (e.e. cam-drin)<br>• Peidio â hybu annibyniaeth<br>• Peidio â dilyn dull gweithredu person-ganolog<br>• Diffyg urddas a pharch<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Darllen drwy'r cynllun personol<br>• Siarad â'r rheolwr / yr unigolyn a wnaeth yr asesiad cychwynnol<br>• Siarad â'u cydweithwyr<br>• Siarad â'r teulu / gofalwr<br>• Gofyn i'r unigolyn<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 003: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – George

| | | |
|---|---|---|
| | **Cynllun Marcio – Cwestiwin Set B George** | |
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 003: Iechyd a llesiant (Oedolion)** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob effaith hyd at uchafswm o 3 marc<br><br>• Diflastod<br>• Iselder<br>• Colli hyder<br>• Hunan-barch isel<br>• Gwneud y dryswch / dementia yn waeth<br>• Teimlo rhwystredigaeth / dicter / anobaith<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob mantais hyd at uchafswm o 2 farc.<br>• Gall pawb gymryd rhan, beth bynnag ei lefel sgìl<br>• Annog creadigrwydd / ymdeimlad o gyflawniad / creu rhywbeth<br>• Mynegi ei hun / teimladau drwy'r gwaith celf<br>• Rhoi cyfle iddo ymlacio<br>• Cymryd ei feddwl oddi ar ei afiechyd / canolbwyntio ar rywbeth arall<br>• Adeiladu ar ei ddiddordebau / sgiliau presennol<br>• Ysgogi'r cof<br>• Annog rhyngweithio cymdeithasol gan wneud rhywbeth ar yr un pryd / h.y. ffocws ddim ar sgwrs<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob gweithgaredd hyd at uchafswm o 2 farc.<br>• Rhoi ymarferion i George eu gwneud<br>• Cynorthwyo George â'r ymarferion<br>• Darparu triniaeth (e.e. tylino / trin y corff)<br>• Asesu anghenion George am gymhorthion cynhaliad (e.e. cynhaliad coes)<br>• Monitro unrhyw newidiadau<br>• Darparu cyngor i George a'i deulu | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Dryslyd / efallai na fydd yn deall beth sy'n digwydd iddo<br>• Iselder / angen mwy o gefnogaeth (e.e. Penfro)<br>• Poeni am ei deulu / sut maen nhw'n ymdopi<br>• Ofnus am y dyfodol / datblygiad dementia<br>• Analluog / colli rheolaeth<br>• Dig bod hyn wedi digwydd iddo<br>• Colli annibyniaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 4 marc.<br>Rhaid i'r atebion fod yn enghreifftiau penodol o'r testun yn hytrach na gosodiadau cyffredinol am ymarfer da e.e. Gofal person-ganolog<br><br>o Gwneud y project rasio<br>o Cynnal sgiliau George (e.e. defnyddio'r cyfrifiadur / technoleg)<br>o Dysgu sgiliau newydd (e.e. gweithio gydag Evan ar sain a cherddoriaeth)<br>o Ailgysylltu â ffrindiau<br>o Ailddechrau defnyddio cyfryngau cymdeithasol<br>o Sefyll am awr y dydd<br>o Rhyngweithio â phobl wahanol (e.e. gweithwyr gofal a chefnogaeth)<br>o Cael cynnig dewisiadau o ran gofal personol / beth i'w wisgo<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r effeithiau negyddol.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol â George a / neu ei deulu.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r effeithiau negyddol.<br>Mae'r ymateb yn ceisio cysylltu rhai o'r effeithiau â George a / neu ei deulu. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | **Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r effeithiau negyddol.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng yr effeithiau a sut maen nhw'n effeithio ar George a / neu ei deulu.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn â'r effeithiau.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau clir rhwng yr effeithiau a nodwyd a sut maen nhw'n effeithio ar George a / neu ei deulu.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gyfeirio at y canlynol**<br>• Gweithwyr gofal a chefnogaeth yn ymweld â'r cartref<br>• Yr amgylchedd ffisegol e.e. cyfarpar sydd ei angen yn y cartref / newidiadau ac addasiadau i'r cartref<br>• Newidiadau i'w trefn arferol<br>• Effaith ariannol e.e. talu am gefnogaeth<br>• Colli rheolaeth e.e. peidio â darparu llawer o'r gefnogaeth roedden nhw'n arfer ei darparu<br>• Colli preifatrwydd<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob gweithred hyd at uchafswm o 2 farc.<br>• Caniatáu i George wneud cymaint drosto ei hun â phosibl<br>• Parchu preifatrwydd George gymaint â phosibl (e.e. tynnu llen y gawod os yn briodol)<br>• Parchu gofod personol George (e.e. peidio â sefyll yn rhy agos)<br>• Gwneud yn siŵr na all pobl eraill weld i mewn (e.e. cau drysau / llenni)<br>• Curo drws yr ystafell ymolchi cyn mynd i mewn.<br>• Cynnig dewisiadau (e.e. ymolchi neu gael baddon/bath)<br>• Gorchuddio'r corff gymaint â phosibl (e.e. defnyddio tywel)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• George yn mynegi diddordeb mewn gwneud y project rasio<br>• Cynnwys George yn y penderfyniadau am ei becyn gofal<br>• George yn cytuno bod angen cefnogaeth ychwanegol ar ei gyfer ef a'i deulu<br>• George yn dweud yr hoffai gyfarfod â'i ffrindiau<br>• George yn dweud yr hoffai fynychu ei grŵp ffotograffiaeth<br>• George yn cysylltu â'i ffrindiau dros y cyfryngau cymdeithasol | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob egwyddor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Gweithio amlasiantaethol<br>• Atal ac Ymyrryd yn Gynnar<br>• Cydgynhyrchu<br>• Llesiant | 2 farc |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Darparu gofal a chefnogaeth sy'n parchu ei weithgareddau / diddordebau o'r gorffennol (e.e. ffotograffiaeth, gyrfa)<br>• Annog gweithgareddau ystyrlon y mae ganddo ddiddordeb ynddynt (e.e. e-bostio ffrindiau)<br>• Annog gweithgareddau sy'n rhoi canlyniad cadarnhaol iddo (e.e. cyfryngau cymdeithasol)<br>• Gweithio mewn modd person-ganolog gyda George<br>• Annog George o ran gwneud penderfyniadau / llais a rheolaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Cyfeirio at y cynllun personol<br>• Gofyn i George<br>• Gofyn i deulu George<br>• Gofyn i'r ffisiotherapydd / gweithiwr proffesiynol arall<br>• Gofyn i gydweithwyr eraill<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 003: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – George

| | | |
|---|---|---|
| | **Cynllun Marcio – Cwestiwn Set C George** | |
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 003: Iechyd a llesiant (Oedolion)** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob effaith hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Teimlo sioc / rhwystredigaeth / dicter ynglŷn â'r cyflwr ychwanegol<br>• Eisiau rhoi'r gorau / stopio gwneud pethau / llai gweithgar / arwain at iselder<br>• Ofn am y dyfodol<br>• Colli rhyngweithio â theulu a ffrindiau<br>• Newidiadau i'w ymddygiad<br>• Poeni am yr effaith ar ei deulu<br>• Poeni sut bydd ffrindiau a theulu'n ymateb / poeni y gallai golli ffrind<br>• Llai o hunan-barch a hyder<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob mantais hyd at uchafswm o 4 marc. Gellir cael marciau drwy ddarparu naill ai cymysgedd o fanteision meddyliol neu gymdeithasol; neu gellir cael marciau llawn drwy ddarparu dim ond 4 o fanteision emosiynol derbyniol neu 4 cymdeithasol derbyniol.<br>• **Meddyliol**<br>○ Hwb i hunan-barch George<br>○ Rhoi teimladau o rymuso<br>○ Hybu / cynnal annibyniaeth George<br>○ Gallai deimlo cysylltiad ag aelodau'r grŵp<br>○ Mwynhau'r gweithgaredd / her<br>○ Lleihau teimladau o ynysigrwydd/unigrwydd<br><br>• **Cymdeithasol**<br>○ Adeiladu rhwydwaith cefnogi / cysylltiadau<br>○ Cynhwysiant cymdeithasol / bod yn rhan o'r gymuned / ymdeimlad o berthyn<br>○ Ailgysylltu â ffrindiau / pobl<br>○ Rhannu diddordebau / pobl debyg | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br>• Ei gadw'n symud / symud cymaint â phosibl<br>• Monitro unrhyw newidiadau i'w symudedd<br>• Trafod / ateb cwestiynau allai fod gan George<br>• Cynnal / gwella / cryfhau ei gyhyrau<br>• Gwella llif y gwaed<br>• Atal anaf<br>• Cael golwg ar gynnydd ei ymarferion<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae George wedi cymryd rhan yn y broses o drafod / cytuno ar y gofal sydd ei angen arno<br>• Mae tîm dementia arbenigol wedi'i neilltuo i George<br>• Mae George yn cytuno â'r targedau a osodir / yn cyfrannu at eu gosod<br>• Mae Louise yn cynnig dewis i George / yn dod i wybod ei hoff ddewisiadau (e.e. gofal personol)<br>• Mae Louise yn siarad â George am ei ddiddordebau<br>• Mae Louise yn gofyn am ganiatâd George i siarad â'i deulu am ei fywyd gwaith<br>• Mae Louise yn gwrando ar George / yn rhoi sylw iddo (e.e. mae George yn mwynhau siarad â Louise am sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ystyriaethau.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu'r ystyriaethau yn benodol â sut i'w defnyddio nhw gyda George nac i osgoi camddealltwriaeth.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn ag ystyriaethau perthnasol.<br>Mae'r ymateb yn ceisio cysylltu rhai o'r ystyriaethau â George neu ag osgoi camddealltwriaeth.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn ag amrywiaeth o ystyriaethau.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu rhai o'r ystyriaethau â sut i'w defnyddio nhw i osgoi camddealltwriaeth gyda George. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | **Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn ag amrywiaeth eang o ystyriaethau. Mae'r ymateb yn cysylltu'r ystyriaethau sydd wedi'u nodi yn glir â sut i'w defnyddio nhw i osgoi camddealltwriaeth gyda George.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Dewis lle tawel i siarad â George fel na fydd dim byd yn tynnu ei sylw<br>• Rhoi digon o le i George wrth siarad ag ef<br>• Dangos parch / siarad ag ef fel oedolyn / peidio â bod yn nawddoglyd<br>• Gwneud yn siŵr bod ganddi sylw George cyn siarad ag ef<br>• Sicrhau cyswllt llygad â George, a'i gynnal, er mwyn iddo allu gweld mynegiannau ei hwyneb<br>• Defnyddio tôn is<br>• Siarad yn arafach<br>• Osgoi unrhyw gwestiynau fydd yn profi'r cof sydd wedi'i niweidio<br>• Osgoi rhoi pwysau ychwanegol ar George wrth gyfathrebu<br>• Gofyn un cwestiwn ar y tro ac aros am ymateb cyn symud ymlaen<br>• Defnyddio geiriau byr a brawddegau syml<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Dangos parch at yr hyn mae George wedi ei gyflawni<br>• Cynnal sgiliau George (e.e. defnyddio'r cyfrifiadur / technoleg)<br>• Ei gefnogi i ddysgu sgiliau newydd (e.e. gweithio gydag Evan ar sain a cherddoriaeth)<br>• Cefnogi perthynas George ag Evan / atgyfnerthu ei rôl fel tad<br>• Arwain at gysylltu â phobl / ffrindiau dros y cyfryngau cymdeithasol<br>• Louise yn dangos parch at George fel unigolyn / yn gweld y tu hwnt i'r dementia<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob gweithred hyd at uchafswm o 3 marc.<br>• Gwneud yn siŵr bod George wedi'i orchuddio gymaint â phosibl cyn ac ar ôl mynd i'r gawod<br>• Cefnogi George i wneud cymaint drosto ei hun â phosibl (e.e. golchi ei hun) | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Gwneud yn siŵr bod y drws wedi'i gau / atal rhywun arall rhag dod<br>• Gwneud yn siŵr bod y llenni / bleindiau ar unrhyw ffenestri wedi'u cau / atal pobl rhag gweld i mewn<br>• Gwneud yn siŵr bod llen / drws y gawod wedi'i gau gymaint â phosibl i gynnal preifatrwydd<br>• Ceisio atal tarfu / gadael i'r teulu wybod ei fod yn mynd am gawod.<br>• Gwneud yn siŵr ei bod hi'n gofyn iddo sut hoffai dderbyn ei ofal personol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Cynnwys Gofal Penfro i gael cefnogaeth ychwanegol<br>• Ymweliad wythnosol gan y ffisiotherapydd i gynnal ei gyhyrau<br>• Defnyddio cyfarpar i helpu George i sefyll / lleihau'r risg o ddoluriau gwasgu<br>• Defnyddio cyfarpar wrth roi gofal personol i atal syrthio<br>• Defnyddio'r project i ennyn diddordeb George / rheoli ymddygiadau<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob egwyddor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Gweithio amlasiantaethol<br>• Llesiant<br>• Llais a Rheolaeth<br>• Cydgynhyrchu | 2 farc |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Parchu dymuniadau George (e.e. beth i'w wisgo)<br>• Parchu George fel unigolyn<br>• Annog annibyniaeth George<br>• Grymuso George / gwneud ei benderfyniadau ei hun<br>• Hybu llesiant emosiynol (e.e. atal ffrwydradau)<br>• Hybu dull person-ganolog<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Defnyddio unrhyw gymhorthion cyfathrebu<br>• Gwybodaeth wedi'i nodi yn y cynllun personol<br>• Cyflymder a thôn llais gall unigolyn eu deall<br>• Yr amgylchedd (e.e. sŵn, pa mor agos)<br>• Lefel dealltwriaeth / galluedd<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 003: 20 marc** | **30 marc** |

## Astudiaeth Achos – Alwyn

Rydych chi'n mynd i ddarllen astudiaeth achos am Alwyn sydd wedi dechrau cael cefnogaeth gartref yn ddiweddar.
Byddwch chi'n darllen am y bobl ganlynol fel rhan o'r astudiaeth achos hon:

| | |
|---|---|
| Alwyn | Yr unigolyn sy'n cael cefnogaeth gartref |
| Bronwyn | Merch Alwyn |
| Steven | Gweithiwr gofal a chefnogaeth Alwyn |
| Debbie | Rheolwr llinell Steven |

Dydy'r astudiaeth achos hon ddim yn seiliedig ar sefydliad nac unigolion go iawn.

Mae Alwyn yn 78 oed ac roedd yn beiriannydd cyn iddo ymddeol. Mae ganddo symptomau cynnar dementia ac mae asesiad wedi canfod bod ganddo alluedd llawn ar hyn o bryd. Mae'n byw gydag effeithiau arthritis sy'n golygu bod arno angen cefnogaeth â symudedd a gofal personol. Roedd gwraig Alwyn yn arfer darparu'r gefnogaeth hon ond bu hi farw'n ddiweddar.

Yn y gorffennol, mae gweithiwr cymdeithasol wedi cael trafodaeth gydag Alwyn a'i ferch, Bronwyn, am gael cefnogaeth gan asiantaeth gofal cartref. Roedd Bronwyn yn gyndyn ar ôl darllen erthyglau newyddion am ansawdd rhai gwasanaethau gofal. Er bod Bronwyn yn byw'n agos, mae hi'n gweithio'n llawn-amser a dydy hi ddim yn gallu cefnogi Alwyn yn ystod y dydd. Yn gyndyn, mae hi'n cytuno bod angen cefnogaeth nawr gan fod Alwyn yn anghofio cymryd ei feddyginiaeth a bwyta.

Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn helpu Alwyn a'i ferch i ddewis asiantaeth gofal cartref leol. Maen nhw'n trefnu asesiad gyda'r rheolwr gwasanaeth, sy'n sefydlu cynllun personol. Y cytundeb yw y bydd rhywun yn ymweld ag Alwyn ddwywaith y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae Steven wedi cael ei neilltuo fel un o weithwyr gofal a chefnogaeth Alwyn. Mae'n edrych ymlaen at weld Alwyn oherwydd hwn fyddai ei ymweliad cyntaf ers iddo gwblhau ei gyfnod sefydlu gyda'r asiantaeth.

Mae Steven yn gwneud ei ymweliad cyntaf yn y bore. Mae'n ei gyflwyno ei hun, ac mae'n siarad ag Alwyn am ei deulu a'i yrfa. Mae yna'n dweud wrth Alwyn am ei deulu ei hun. Mae hefyd yn dweud ei fod yn byw gerllaw ac yn adnabod un o berthnasau Alwyn. Mae Alwyn yn dweud nad yw am i ddim byd gael ei rannu â neb arall. Mae Steven yn tawelu ei feddwl na fyddai byth yn rhannu gwybodaeth beth bynnag gan fod ganddo ddyletswydd i gynnal cyfrinachedd. Mae Steven yn gofyn a fyddai'n gallu edrych yng nghynllun personol Alwyn. Mae Alwyn yn cytuno ac mae Steven yn cael golwg sydyn i ganfod y wybodaeth sydd ei hangen arno.

Mae Steven yn gofyn i Alwyn a yw wedi cael brecwast ac mae Alwyn yn dweud nad yw'n llwglyd. Mae Steven yn gweld yn y cynllun personol na chafodd Alwyn frecwast y diwrnod cynt. Mae Steven yn siarad ag Alwyn am hyn. Mae Alwyn yn dweud bod ei wraig yn arfer prynu ei hoff bethau ac mai ei ferch sy'n gwneud y siopa nawr ac nad yw hi'n cael y pethau cywir. Mae Steven yn awgrymu eu bod nhw'n gwneud tost heddiw ac yn gwneud rhestr siopa o bethau yr hoffai Alwyn eu bwyta, ac mae ef yn cytuno.

Cyn iddyn nhw baratoi'r tost, mae Steven yn edrych yn y cynllun personol am wybodaeth am alergeddau ac mae'n gweld ei fod wedi'i adael yn wag. Mae'n gofyn i Alwyn oes ganddo unrhyw alergeddau ac mae Alwyn yn dweud nad yw'n gallu cofio. Mae Steven yn pryderu

am hyn ac yn ffonio ei swyddfa; maen nhw'n cadarnhau nad oes gan Alwyn unrhyw alergeddau. Mae Alwyn yn anhapus bod Steven wedi ffonio rhywun heb ei ganiatâd ac yn dweud "mae'n gwneud i mi deimlo fel plentyn". Mae Steven yn ymddiheuro ac yn newid y pwnc.

Dydy Steven ddim yn siŵr ydy Alwyn wedi cael cawod yn ddiweddar oherwydd mae cofnodion y cynllun personol yn anghyflawn ar gyfer rhai o'r diwrnodau ac mae rhai o'r lleill yn amhosibl eu darllen. Ar ôl brecwast mae Steven yn gofyn i Alwyn a hoffai gefnogaeth i gael cawod.

Mae Alwyn yn dweud nad yw eisiau cael cawod am ei fod wedi llithro rai wythnosau'n ôl a'i fod yn teimlo'n ansicr.

Mae Steven yn awgrymu y gallai siarad â'i reolwr i gael arweiniad gan y gallai drefnu cyfarpar i helpu. Mae'n awgrymu, am heddiw, y gallai gefnogi Alwyn i ymolchi'n llawn yn lle cael cawod. Mae Alwyn yn hapus â hyn ac mae Steven yn cofnodi hyn.

Mae Steven yn gofyn i Alwyn am ei ddiddordebau. Mae Alwyn yn dweud ei fod yn arfer mynd i'r eglwys bob bore gyda'i wraig ac yn dweud yr hoffai allu dechrau mynychu'r eglwys eto. Mae Alwyn hefyd yn dweud nad yw byth yn gadael y tŷ. Mae Steven yn awgrymu y gallai'r eglwys fod yn rhy anodd i Alwyn ar hyn o bryd ac yn argymell ei fod yn meddwl am y peth yn y dyfodol. Mae Alwyn yn cytuno er ei fod yn gyndyn o wneud hynny.

Ar ôl gadael Alwyn, mae Steven yn ystyried yr ymweliad ac yn teimlo ychydig yn anesmwyth am y ffaith bod rhai o gofnodion gofal personol Alwyn yn anghyflawn ac yn amhosibl eu darllen. Mae'n penderfynu ffonio Debbie, ei reolwr, i ofyn am gyngor. Mae hi'n diolch i Steven am fynegi'r pryder ac yn dweud y bydd hi'n edrych ar y mater. Mae Steven yn sôn wrth Debbie ei fod yn meddwl y gallai fod angen cyfarpar i helpu Alwyn i gael cawod, ond nad yw'n siŵr am y broses na beth sydd ar gael. Mae hi'n dweud y bydd hi'n trefnu bod therapydd galwedigaethol yn ymweld ac yn awgrymu bod Steven yn gwneud gwaith ymchwil ar gymhorthion ac addasiadau er mwyn ei ddatblygiad proffesiynol parhaus ei hun.

Mae Steven hefyd yn dweud ei fod wedi bod yn meddwl am yr hyn mae wedi'i ddweud wrth Alwyn am adnabod un o'i berthnasau, ac mae nawr yn pryderu bod hynny'n amhriodol i'w rôl. Mae Debbie yn dweud y gallen nhw chwilio am ffyrdd iddo ddysgu mwy am ffiniau proffesiynol. Mae hi'n awgrymu y gallai Steven gysgodi gweithiwr gofal a chefnogaeth profiadol ar ei ymweliad cyntaf ag unigolyn. Mae hi'n trefnu cael cyfarfod goruchwylio ag ef y diwrnod nesaf ac yn gofyn iddo lenwi dalen ymarfer myfyriol gafodd ei rhoi iddo yn ei gyfnod sefydlu.

Yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw mae Steven yn meddwl am ddymuniad Alwyn i ddechrau mynychu'r eglwys eto a mynd allan yn amlach. Mae Steven yn penderfynu edrych ar wefan yr eglwys ac yn darganfod eu bod nhw'n fodlon casglu pobl i fynychu gwasanaethau a hefyd yn cynnal gweithgareddau cymdeithasol. Mae'n gwneud nodyn o hyn i drafod y mater â Debbie.

## Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Alwyn

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set A Alwyn | | |
|---|---|---|
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 005: Ymarfer Proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob peth a roddir hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Cynnal diogelwch cofnodion personol yn yr asiantaeth gofal cartref (e.e. eu rhoi nhw'n ôl mewn man diogel ar ôl eu defnyddio nhw)<br>• Dim ond datgelu gwybodaeth bersonol os yw Alwyn neu rywun arall yn wynebu risg<br>• Dim ond datgelu gwybodaeth i bobl sydd â hawl neu angen i wybod (e.e. rheolwr, therapydd galwedigaethol)<br>• Peidio rhoi gwybod i ffrindiau neu gymdogion ei fod yn cefnogi Alwyn<br>• Peidio trafod Alwyn â chydweithwyr mewn mannau cyhoeddus<br>• Peidio rhannu gwybodaeth â Bronwyn heb ganiatâd Alwyn<br>• Cadw at ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt / cynnal ei ddyletswydd gofal<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob mantais sydd wedi'i rhoi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Dod ag amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth at ei gilydd i gefnogi anghenion llesiant cymdeithasol, corfforol ac emosiynol Alwyn<br>• Diogelu Alwyn<br>• Ymyrryd yn gynnar (e.e. atal cwympo, esgeuluso'r hunan)<br>• Rhannu adnoddau (e.e. cyfarpar/offer/staff) ymysg gwasanaethau/eraill i helpu i gyflawni canlyniadau (e.e. cymhorthion i'r gawod)<br>• Sicrhau bod gwasanaethau neu arbenigedd ar gael yn haws/yn gyflymach (e.e. gall y gwasanaeth ffonio'r gweithiwr cymdeithasol sy'n adnabod Alwyn) | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Caniatáu cysylltiadau â grwpiau gwirfoddol a chymunedol (e.e. casglu pobl ar gyfer gwasanaethau'r eglwys)<br>• Asiantaethau'n rhannu gwybodaeth am lesiant/cynnydd Alwyn<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• I barchu dymuniadau Alwyn<br>• I wneud i Alwyn deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi<br>• I hybu cynhwysiant Alwyn yn y gymuned<br>• I gynnal hawliau Alwyn i ddathlu ei ffydd<br>• I ddangos gwaith partneriaeth gyda'r teulu<br>• I roi cyfle i Steven i ddysgu am amrywiaeth<br>• I atgyfnerthu hunaniaeth Alwyn (e.e. gallai anghofio am yr eglwys os yw'r dementia yn gwaethygu)<br>• I gefnogi eu perthynas waith barhaus (e.e. peidio â chydnabod y gallai credoau Alwyn gael effaith anffafriol ar y berthynas)<br>• I hybu llesiant cyfannol Alwyn<br>• Mae'n cynnal y ffyrdd o weithio mae'r gweithwyr wedi cytuno arnynt<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob peth a roddir hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Rhannu gwybodaeth a diweddariadau priodol (gyda chaniatâd Alwyn)<br>• Cynnwys Bronwyn wrth wneud penderfyniadau lle bo'n briodol (e.e. newidiadau i gartref Alwyn)<br>• Gofyn am farn/syniadau Bronwyn i roi gwell cefnogaeth i Alwyn (e.e. rhestr siopa ar gyfer brecwast)<br>• Rhoi cefnogaeth gadarnhaol i Alwyn i ddangos i Bronwyn ei bod hi'n gallu ymddiried mewn gwasanaethau (e.e. ei helpu i ymolchi, bod yn rhagweithiol ynglŷn â chymhorthion cawod)<br>• Siarad â Bronwyn mewn ffordd sensitif / cydnabod ei rôl<br>• Annog/cynnal cefnogaeth Bronwyn i'w thad<br>• Cydnabod/deall effaith y sefyllfa ar Bronwyn (e.e. colli ei mam, cyfrifoldebau gofalu Alwyn) | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae'n diffinio rolau a chyfrifoldebau (e.e. tasgau mae angen eu cwblhau fel gofal personol, brecwast)<br>• Mae'n monitro/rhannu pryderon (e.e. Cofnod o Alwyn yn methu ei frecwast)<br>• Mae'n monitro/rhannu gwybodaeth/llesiant (e.e. Steven yn cofnodi bod Alwyn yn ymolchi yn lle cael cawod)<br>• Mae'n darparu gofal cyson o fewn y tîm asiantaeth gofal cartref (e.e. ymwneud â 2 ymweliad 7 diwrnod yr wythnos)<br>• Mae'n atgoffa pawb o ddymuniadau a dewisiadau Alwyn (e.e. bod arno ofn llithro yn y gawod)<br>• Mae'n rhoi gwybodaeth i bawb sy'n ymwneud ag adolygiadau gofal (e.e. rhoi gwybodaeth i therapydd galwedigaethol/gweithiwr cymdeithasol)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â chysgodi.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol â Steven nac â gwella ymarfer.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â chysgodi. Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng y cysgodi a Steven neu wella ymarfer.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â chysgodi. Mae'r ymateb yn rhoi rhai cysylltiadau ar gyfer sut gall cysgodi wella ymarfer Steven.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn â chysgodi.<br>Mae'r ymateb yn rhoi enghreifftiau a/neu esboniad clir ynglŷn â sut gall cysgodi wella ymarfer Steven.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Enghreifftiau o welliant. Gallai ei helpu i wneud y canlynol:<br>o Adnabod ffiniau proffesiynol<br>o Ymateb yn sensitif i sefyllfaoedd anodd<br>o Cyfleu agwedd broffesiynol | 4 marc |

<table>
<tr><th>Cwestiwn</th><th>Canllaw ateb</th><th>Uchafswm marciau</th></tr>
<tr><td></td><td>
<ul><li>Rhoi gwybod am bryderon (e.e. cofnodion anghyflawn)</li>
<li>Gosod disgwyliadau ynglŷn â chadw cofnodion</li>
<li>Rheoli perthnasoedd ag aelodau'r teulu</li></ul>
<ul><li>Egwyddorion cysgodi ymarfer gorau
<ul><li>Arsylwi ymarfer gorau</li>
<li>Arsylwi llwyddiannau/canlyniad</li>
<li>Siarad am ymarfer gorau</li>
<li>Gofyn cwestiynau</li>
<li>Gweithio ochr yn ochr</li>
<li>Mentora, derbyn arweiniad</li></ul></li></ul>
</td><td></td></tr>
<tr><td>7.</td><td>Dyfarnwch 1 marc am bob dogfen sydd wedi'i rhoi am 1 marc yn unig.
<ul><li>Nodiadau dyddiol yn ffeiliau'r unigolyn</li>
<li>Llyfr cyfathrebu</li>
<li>Asesiadau risg</li>
<li>Siartiau meddyginiaeth</li>
<li>Siartiau bwyd/deiet</li>
<li>Hylendid/gofal personol/siart</li>
<li>Adroddiad digwyddiad</li></ul>
Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.</td><td>1 marc</td></tr>
<tr><td>8.</td><td>Dyfarnwch 1 marc am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.
<ul><li>Edrych yng nghofnodion Alwyn</li>
<li>Ffonio'r swyddfa i holi am alergeddau</li>
<li>Gofyn i Alwyn sut mae'n hoffi cael ei gefnogi (e.e. cawod)</li>
<li>Siarad ag Alwyn am ddewisiadau bwyd</li>
<li>Siarad ag Alwyn am ei yrfa</li>
<li>Siarad ag Alwyn am ei deulu</li>
<li>Siarad ag Alwyn am ei ddiddordebau</li>
<li>Ymchwilio i eglwys Alwyn ar y rhyngrwyd</li></ul>
Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.</td><td>2 farc</td></tr>
<tr><td>9.</td><td>Dyfarnwch 1 marc am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc.
<ul><li>Cefnogi Alwyn i ymolchi</li>
<li>Cefnogi/awgrymu rhestr siopa ar gyfer brecwast.</li>
<li>Cefnogi Alwyn i wneud ei frecwast</li></ul></td><td>2 farc</td></tr>
</table>

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Gofyn am ganiatâd i edrych yng nghofnodion Alwyn<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm, hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Helpu Steven i ddeall beth mae Alwyn ei eisiau<br>• Cyflawni pethau/cwblhau tasgau<br>• Hybu ymddiriedaeth<br>• Helpu i rannu gwybodaeth bwysig<br>• Diweddaru newidiadau neu ddymuniadau ac anghenion yn gyson<br>• Cynnal parch ac urddas Alwyn<br>• Mae'n berson-ganolog<br>• Parchu hawliau Alwyn<br>• Trin Alwyn yn gyfartal<br>• Annog gwaith mewn partneriaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 11. | Dyfarnwch 1 marc am bob effaith, hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Colli hyder<br>• Colli hunan-barch<br>• Ynysu Cymdeithasol<br>• Colli annibyniaeth/mynd yn ddibynnol ar bobl eraill<br>• Peidio mynd allan/diffyg symbyliad/newid amgylchedd<br>• Diffyg perthynas agos<br>• Iselder<br>• Straen/gorbryder<br>• Neb i'w atgoffa i fwyta/cymryd meddyginiaeth<br>• Risg o gwympo yn y gawod ar ei ben ei hun<br>• Diffyg awyr iach/ymarfer corff<br>• Gorfod cynnal ei gartref ar ei ben ei hun<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 005: 20 marc** | **30 marc** |

## Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Alwyn

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set B Alwyn | | |
|---|---|---|
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 005: Ymarfer Proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae gan Steven ddyletswydd gofal i roi gwybod am hyn<br>• Mae gan Steven ddyletswydd gofal i sicrhau bod llesiant Alwyn yn cael ei gynnal (e.e. hylendid)<br>• Mae Steven yn atebol am yr hyn mae ef ei hun yn ei wneud<br>• Mae tîm asiantaeth gofal cartref Steven yn atebol am unrhyw faterion iechyd a diogelwch<br>• Mae angen i Steven wneud yn siŵr bod Alwyn yn cael y gefnogaeth gywir (e.e. cymhorthion ac addasiadau i'r gawod)<br>• Dylai Steven geisio atal ymarfer gwael pellach<br>• Mae'n ffordd o weithio y cytunwyd arni h.y. polisïau a gweithdrefnau, cod ymarfer<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob budd sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Canfod cryfderau / beth dylai barhau i'w wneud<br>• Helpu i fagu ei hyder yn ei rôl<br>• Helpu Steven i wneud pethau'n wahanol y tro nesaf/osgoi gwneud yr un camgymeriad<br>• Canfod anghenion dysgu/ datblygu<br>• Canfod ble/sut i gael cyfleoedd dysgu<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob mantais sydd wedi'i rhoi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gwasanaethau o safon uwch / drwy weithio gyda'i gilydd gallan nhw rannu syniadau/meddyliau | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Rhannu/cael gafael ar adnoddau (e.e. cymhorthion cawod)<br>• Y ddau wasanaeth yn deall mwy am eu rolau ei gilydd<br>• Caniatáu i'r ddau fanteisio ar wybodaeth arbenigol neu arbenigedd<br>• Mynediad cyflymach / haws i'r gwasanaeth therapi galwedigaethol<br>• Rhannu risg/atebolrwydd (e.e. atal pobl rhag cwympo)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth ynglŷn â sut mae ffiniau proffesiynol clir yn cefnogi datblygiad perthnasoedd cadarnhaol.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu'n benodol ag ymarfer Steven nac â'i berthynas ag Alwyn.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut mae ffiniau proffesiynol clir yn cefnogi datblygiad perthnasoedd cadarnhaol.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau ag ymarfer Steven a/neu â'i berthynas ag Alwyn.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut mae ffiniau proffesiynol clir yn cefnogi datblygiad perthnasoedd cadarnhaol.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau â sut mae ymarfer Steven yn cefnogi ei berthynas ag Alwyn.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut mae ffiniau proffesiynol clir yn cefnogi datblygiad perthnasoedd cadarnhaol.<br>Mae'r ymateb yn rhoi cysylltiadau cryf ac esboniad cryf ynglŷn â sut mae ymarfer Steven yn cefnogi ei berthynas ag Alwyn.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Enghreifftiau o gynnal ffiniau proffesiynol<br>    o Ceisio caniatâd/cydsyniad i weld y cynllun personol<br>    o Dweud wrth Alwyn bod ganddo ddyletswydd i gynnal cyfrinachedd<br>• Enghreifftiau o beidio â chynnal ffiniau proffesiynol<br>    o Dweud wrth Alwyn ei fod yn byw gerllaw<br>    o Dweud wrth Alwyn ei fod yn adnabod un o berthnasau Alwyn<br>    o Cynghori Alwyn y byddai'r eglwys yn rhy anodd | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Effaith ar berthynas broffesiynol Steven ac Alwyn<br>   o Helpu i adeiladu ymddiriedaeth<br>   o Bydd Alwyn yn fwy tebygol o siarad â Steven<br>   o Mae hyn yn dangos parch at Alwyn sy'n ei helpu i deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi.<br>   o Mae hawliau Alwyn yn cael eu cadarnhau sy'n ei rymuso ac yn gallu rhoi teimlad o reolaeth iddo.<br>   o Mae Alwyn yn cael ei gefnogi i roi ei farn (oes arno eisiau rhannu ei wybodaeth). | |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc.<br>**Peidiwch â derbyn** asiantaeth gofal cartref gan fod hyn yn y bonyn.<br><br>• Therapi galwedigaethol<br>• Tîm amlasiantaethol<br>• Uned teulu<br>• Gwasanaethau/rhwydweithiau cymunedol (e.e. eglwys)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob canlyniad sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Mae'n bosibl nad yw Steven yn cynnal hawliau Alwyn<br>• Gallai arwain at bosibilrwydd o gam-drin<br>• Gallai wneud mwy i ddadrymuso Alwyn (e.e. teimlo fel plentyn)<br>• Gallai Steven wthio ei ddewisiadau/safbwyntiau/ymddygiadau ei hun ar Alwyn<br>• Mae'n bosibl nad yw Steven yn darparu gofal person-ganolog<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob ffynhonnell sydd wedi'i rhoi hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Gofyn i weithiwr gofal a chefnogaeth profiadol arall<br>• Siarad/cysylltu â therapydd galwedigaethol<br>• Siarad/cysylltu â gweithiwr cymdeithasol Alwyn<br>• Chwilio am daflenni (e.e. llyfrgell, meddygfa deulu)<br>• Cysylltu â gwasanaeth cyngor ar anabledd | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
| --- | --- | --- |
| | • Cysylltu â sefydliadau perthnasol (e.e. siopau symudedd)<br>• Ymchwilio i grwpiau cyfryngau cymdeithasol<br>• Defnyddio adnoddau ar-lein (e.e. y GIG)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob peth a roddir hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Dod i wybod am Alwyn a'i fywyd a'i deulu<br>• Dangos parch at ddymuniadau Alwyn (e.e. dim eisiau cael cawod)<br>• Cynnig dewisiadau (e.e. cynnig dewis ymolchi, gofyn beth hoffai ei gael i frecwast)<br>• Cael caniatâd i edrych yn ei gynllun personol<br>• Gwneud awgrymiadau i ddysgu am ddewisiadau bwyd Alwyn<br>• Ymchwilio'r eglwys / gwefan<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â cheisio adborth a dysgu ohono.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol â datblygiad proffesiynol y gweithwyr nac ag ymarfer Helen.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â cheisio adborth a dysgu ohono.<br>Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng adborth a datblygiad proffesiynol y gweithwyr neu ymarfer Helen.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â cheisio adborth a dysgu ohono. Mae'r ymateb yn gwneud rhai cysylltiadau rhwng datblygiad proffesiynol y gweithwyr neu ymarfer Helen.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl ynglŷn â cheisio adborth a dysgu ohono.<br>Mae'r ymateb yn rhoi enghreifftiau a/neu esboniad clir rhwng adborth a datblygiad proffesiynol y gweithwyr neu ymarfer Helen.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys**<br><br>• Mae dweud wrth weithwyr beth maen nhw'n ei wneud yn dda yn eu helpu nhw i deimlo'n hyderus eu bod nhw'n gweithio yn y ffordd gywir<br>• Efallai na fydd gweithwyr yn ymwybodol o rai ymddygiadau (e.e. cymryd drosodd) ac felly bydd angen adborth gan eraill arnynt i wella eu hymarfer<br>• Mae'n annog trafodaeth am ymarfer drwy gydol y flwyddyn sy'n helpu gweithwyr i baratoi am eu gwerthusiadau (e.e. gwybod beth gaiff ei drafod)<br>• Mae bod yn ymwybodol o feysydd lle mae angen datblygu yn rhoi cyfle i weithwyr i newid cyn i rywbeth droi'n broblem sylweddol<br>• Mae'n eu hatgoffa nhw eu bod nhw'n cael eu monitro ac felly'n atebol<br>• Mae cyfathrebu agored yn hybu ymarfer gorau<br>• Mae gofyn am adborth yn fater o ymarfer gwaith go iawn ac yn ffordd dda o ddysgu h.y. cymhwyso ymarfer.<br>• Cyfle i'r gweithwyr gymryd rheolaeth dros eu dysgu a gofyn am adborth penodol am rywbeth maen nhw wedi'i wneud / dydyn nhw ddim yn siŵr amdano | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob mantais hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Gallai:<br>• Atgyfnerthu / ei hatgoffa o ymarfer gorau<br>• Rhoi enghreifftiau ymarferol i Helen o sut i wella / darparu gofal person-ganolog<br>• Gwneud i Helen deimlo'n fwy hyderus / ei hatgoffa hi o beth mae hi'n ei wneud yn dda<br>• Helpu Helen i weld ei chyfyngiadau / bylchau yn ei hymarfer / ei gwybodaeth<br>• Helpu Helen i ganfod sut i oresgyn problemau<br>• Helpu Helen i ddysgu / rhannu o brofiadau pobl eraill<br>• Cyfeirio Helen at adnoddau eraill<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob gweithredu hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Defnyddiwch dywel neu ddalen i orchuddio Letty gymaint â phosibl<br>• Gwnewch yn siŵr bod llenni ffenestri/bleindiau yn cael eu tynnu<br>• Cnocio ar y drws cyn mynd i mewn<br>• Gadewch i Lletty wneud cymaint ag y gall hi ei hun<br>• Caniatáu dewis o ddillad / golchi cynnyrch<br>• Rhowch amser/ peidiwch â rhuthro<br>• Dymuniadau parch yn y cynllun gofal<br>• Gofynnwch bob tro am ddewisiadau<br>• Gofynnwch i Letty sut i'w wneud yn bleserus (e.e. gwrando ar y radio)<br>• Addasu i unrhyw geisiadau<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Colli annibyniaeth (e.e. pobl eraill yn gwneud tasgau gofal personol dros Letty)<br>• Colli'r sgiliau sydd eu hangen i gynnal cartref (e.e. coginio, glanhau)<br>• Pryder am symud / gadael y cartref roedd hi'n ei rannu â'i gŵr<br>• Teimlo galar / colli ei bywyd blaenorol | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Colli preifatrwydd<br>• Colli urddas (e.e. cael cefnogaeth ar gyfer gofal personol)<br>• Gallai deimlo ei bod yn colli rheolaeth dros ei dyfodol (e.e. cyfnod olaf ei bywyd)<br>• Llai o gyfle i wneud gweithgarwch corfforol (e.e. dim gwaith tŷ)<br>• Teimlo embaras<br>• Byw gyda phobl dydy hi heb ddewis byw gyda nhw / ddim yn cael dewis pwy sy'n byw gyda hi<br>• Ymdrin ag ymddygiad gwahanol / anodd pobl eraill (e.e. gweiddi)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae Helen yn gofyn i Letty am ei hoff ddewisiadau<br>• Mae Helen yn gwneud ymdrech i arafu ei hymarfer wrth roi gofal personol<br>• Mae Helen yn gwneud amser i siarad â Letty<br>• Mae Helen yn rhoi gwybod i Janet am ei phryderon am ddirywiad Letty (e.e. gwybodaeth o'r cynllun personol)<br>• Mae Helen yn tawelu meddwl Letty pan mae hi'n anhapus<br>• Mae Helen yn cefnogi Letty yn ystod yr asesiad gan y ffisiotherapydd<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 005: 20 marc** | **30 marc** |

## Astudiaeth Achos – South Lodge

Rydych chi'n mynd i ddarllen astudiaeth achos am gartref gofal preswyl South Lodge mewn tref farchnad.
Byddwch chi'n darllen am y bobl ganlynol fel rhan o'r astudiaeth achos hon:

| | |
|---|---|
| Beth | Unigolyn yn South Lodge |
| Dan | Gŵr Beth |
| Annie | Merch Beth |
| Margie | Gweithiwr gofal a chefnogaeth yn South Lodge |

Dydy'r astudiaeth achos hon ddim yn seiliedig ar sefydliad nac unigolion go iawn.

Mae South Lodge yn gartref gofal preswyl bach mewn tref farchnad yng Nghymru. Dim ond un deg chwech o breswylwyr sydd yno, a'r nod yw darparu cefnogaeth person-ganolog o ansawdd uchel. Mae'r cartref hefyd yn hybu ei gysylltiadau cryf â'r gymuned leol ac yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogi preswylwyr i aros yn rhan o'r gymuned hon. Er enghraifft, mae preswylwyr yn cael eu cefnogi i fynd i glybiau a gweithgareddau yn y ganolfan gymunedol leol. Mae'r cartref hefyd yn cynnal digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn ac mae'r rhain ar agor i bobl leol eu mynychu.

Mae Beth yn 75 oed ac fe wnaeth hi briodi Dan bum mlynedd yn ôl. Fe wnaethon nhw gyfarfod pan oedd ef yn yrrwr gwirfoddol yng nghlwb cinio'r ganolfan gymunedol ac yn arfer ei chasglu hi a mynd â hi adref. Aethon nhw'n agos er gwaethaf y ffaith ei fod ef ugain mlynedd yn iau na Beth. O fewn tri mis ar ôl iddyn nhw gyfarfod, roedd Dan wedi symud i mewn i dŷ Beth ac roedden nhw wedi priodi. Roedd hyn yn sioc fawr i Annie, merch Beth, ond dywedodd cyfreithiwr wrthi fod gan Beth yr hawl i gytuno â'r briodas felly doedd hi ddim yn bosibl i Annie wneud dim byd am y peth.

Daeth Beth i aros yn South Lodge ddau fis yn ôl ar ôl bod yn yr ysbyty ar ôl cwympo a thorri pont ei hysgwydd (*collarbone)*. Roedd y parafeddygon oedd wedi trin Beth ar y pryd wedi rhoi gwybod i'r tîm iechyd yn yr ysbyty eu bod nhw'n pryderu am y posibilrwydd bod ei gŵr, Dan, wedi ymosod arni a'i hesgeuluso. Dywedon nhw hefyd fod cymdogion wedi clywed Dan yn gweiddi ar Beth ac yn galw enwau arni hi lawer gwaith dros yr wythnosau cyn iddi gwympo. Yn ogystal â hyn, dywedodd Annie wrth y tîm iechyd ei bod hi'n meddwl bod Dan wedi priodi Beth am ei harian a'i fod yn ei hesgeuluso hi. Dywedodd Annie fod ei mam wedi dioddef cyfnodau o iselder a gorbryder erioed ac, yn ystod y cyfnodau hyn, bod arni angen cefnogaeth i ofalu amdani ei hun. Dywedodd Annie ei bod hi'n arfer aros gyda'i mam i roi'r gefnogaeth hon cyn i Beth briodi Dan, ond bod Dan nawr yn gwrthod gadael i Annie fynd i mewn i'w cartref.

O ganlyniad i'r wybodaeth hon i gyd, gwnaeth y tîm iechyd atgyfeiriad diogelu. Bu ymchwiliad amlasiantaethol gan gynnwys y tîm iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu. Roedd canlyniad yr ymchwiliad yn amhendant a doedd dim modd cymryd camau pellach. Wnaeth Beth ddim datgelu unrhyw ymosodiad, esgeulustod penodol na chamdriniaeth a dywedodd hi fod Dan yn "ddyn da". Cafodd Beth gefnogaeth eiriolwr annibynnol yn ystod yr ymchwiliad.

Roedd Annie yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn â chanlyniad yr ymchwiliad ac yn pryderu'n fawr iawn am ei mam yn mynd adref at Dan ar ôl bod yn yr ysbyty. Mae Annie yn byw 50 milltir i ffwrdd ac yn methu cadw llygad agos ar y sefyllfa. Fe wnaeth hi berswadio Beth bod arni

angen mwy o gefnogaeth ac amser i feddwl am y dyfodol ac felly y dylai Beth dreulio rhai misoedd yn South Lodge cyn penderfynu beth i'w wneud.

Doedd Dan ddim yn ymddangos yn bryderus am symud Beth i South Lodge ac mae wedi bod yn ymweld â hi bob yn ail ddiwrnod. Mae Annie yn osgoi ymweld ar yr adegau pan mae hi'n gwybod y gallai Dan fod yno.

Mae rheolwr South Lodge wedi dweud wrth y staff bod ymchwiliad wedi'i gynnal tra roedd Beth yn yr ysbyty, ond bod y canlyniadau'n amhendant. Mae'r rheolwr wedi dweud wrth y staff bod angen iddyn nhw fod yn effro i arwyddion posibl o gamdriniaeth neu i'r posibilrwydd y bydd Beth yn datgelu rhywbeth yn unol â 'Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan 2019'. Mae'r rheolwr hefyd wedi eu hatgoffa nhw beth sydd wedi cael ei ddysgu o adroddiadau ynglŷn â methiannau difrifol i ddiogelu pobl fel Beth.

Mae'r gweithwyr yn gweld y gwrthdaro rhwng Annie a Dan yn anodd iawn. Mae'r tîm hefyd yn dweud bod pethau'n anodd gan fod y rhan fwyaf ohonyn nhw'n byw'n lleol ac yn ymwybodol o lawer o glebran am y teulu. Mae'r rheolwr wedi eu cynghori nhw i beidio â chymryd rhan yn hyn.

Mae Margie, gweithiwr gofal a chefnogaeth, wedi sylwi bod Beth wedi mynd yn dawelach ac yn llai gweithgar dros y mis diwethaf, a bod ei hwyliau wedi mynd yn is. Mae Margie wedi bod yn cofnodi ei phryderon ac yn rhoi gwybod amdanynt yn unol â pholisïau South Lodge. Yn ogystal â hyn, mae hi'n treulio amser gyda Beth yn rheolaidd. Mae'r rheolwr wedi gofyn i Margie weithio gyda Beth ar ei chynllun personol i geisio canfod canlyniadau gyda Beth y byddai hi'n hoffi eu cyflawni tra ei bod hi yn South Lodge.

Mae Beth yn aml yn dweud wrth Margie ei bod hi'n teimlo'n "ddiwerth" ac mai hi sydd ar fai am y drafferth yn ei theulu a'i bod hi'n feirniadol iawn ohoni ei hun. Mae Beth hefyd yn dweud ei bod hi'n gwybod bod pawb yn siarad amdani. Dydy hi ddim eisiau ymuno ag unrhyw weithgareddau grŵp na mynd allan yn y gymuned. Mae Beth yn gyndyn i sôn am wneud unrhyw gynlluniau ond mae hi'n dweud ei bod hi'n gwerthfawrogi cael amser i siarad â Margie.

Mae Margie wedi dweud wrth ei chydweithwyr ei bod hi'n deall pa mor anodd yw'r sefyllfa i Beth oherwydd ei phrofiadau ei hun. Pan oedd Margie yn blentyn, bu'n rhaid iddi hi adael ei chartref yn sydyn a symud i loches gyda'i mam oherwydd trais domestig rhwng ei rhieni. Arweiniodd hyn at lawer o wrthdaro yn y teulu i gyd.

## Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – South Lodge

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set A South Lodge | | |
|---|---|---|
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 006: Diogelu unigolion** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob mantais sydd wedi'i rhoi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Parchu safbwyntiau a dymuniadau Beth (e.e. dim eisiau codi pryderon at lefel uwch)<br>• Hybu hawliau Beth (e.e. dewis ynglŷn â pham byw / pwy mae hi wedi'i briodi)<br>• Rhoi llais a rheolaeth i Beth (e.e. defnyddio eiriolwr)<br>• Cynnal ei llesiant meddyliol/corfforol<br>• Cadw Beth yn ddiogel/diogelu Beth (e.e. mewn amgylchedd diogel lle mae'r gweithwyr yn ymwybodol)<br>• Gweithio gyda Beth i'w chadw hi'n ddiogel (e.e. Cofnodi pryderon a rhoi gwybod amdanynt)<br>• Cynnal cyfrinachedd gwybodaeth bersonol Beth (e.e. mae'r gweithwyr yn ymwybodol o'r clebran yn y gymuned)<br>• Cynnal ymddiriedaeth a hyder Beth (e.e. Margie yn treulio amser gyda Beth)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Parafeddygon yn rhoi gwybod i'r tîm iechyd<br>• Staff nyrsio/tîm iechyd wedi gwneud atgyfeiriad diogelu<br>• Gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn ymchwilio<br>• Rheolwr yn rhoi gwybod i'r tîm am y sefyllfa/ymchwiliad<br>• Margie yn cofnodi pryderon am hwyliau a gweithgareddau Beth ac yn rhoi gwybod amdanynt<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am fanteision eiriolwr annibynnol. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu hyn yn benodol â diogelu nac â'r ymchwiliad.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am fanteision eiriolwr. Mae'r ymateb yn ceisio cysylltu'r rhain â diogelu/yr ymchwiliad.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am fanteision eiriolwr annibynnol.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu'r rhain â sut gellid eu cymhwyso nhw mewn perthynas â'r ymchwiliad diogelu.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am fanteision eiriolwr annibynnol yng nghyd-destun diogelu. Mae'r ymateb yn cysylltu'r rhain yn glir â sut gellid eu cymhwyso nhw mewn perthynas â'r ymchwiliad diogelu.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Helpu Beth i fod â'i llais ei hun<br>• Mae eiriolwr yn annibynnol ar aelodau'r teulu a gallai fod ganddyn nhw eu safbwyntiau eu hunain am beth ddylai ddigwydd<br>• Gall eiriolwr wneud yn siŵr bod Beth yn gwybod ei hawliau<br>• Gall eiriolwr ddod o hyd i wybodaeth allai fod yn ddefnyddiol i Beth<br>• Gall yr eiriolwr dreulio amser gyda Beth yn archwilio opsiynau<br>• Bydd Beth mewn trallod *(distress)* am yr hyn sydd wedi digwydd felly mae arni angen cefnogaeth gan rywun sy'n gallu cydnabod hyn<br>• Gall yr eiriolwr ddarparu cefnogaeth i gysylltu â gwasanaethau defnyddiol<br>• Bydd yr eiriolwr yn ymwybodol o'r weithdrefn ddiogelu gywir ac yn gallu gwneud yn siŵr ei bod hi'n cael ei dilyn | |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob cyfrifoldeb hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Bod yn ymwybodol o arwyddion posibl o gamdriniaeth gan unrhyw un<br>• Gwybod y polisïau a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn<br>• Gwybod pwy i siarad â nhw am unrhyw bryderon<br>• Ymateb yn briodol i unrhyw ddatgeliad<br>• Cyfathrebu/diweddaru gwybodaeth â'r tîm mewn modd amserol<br>• Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n gyfrinachol/ddim yn cael ei rhannu oni bai bod angen gwneud hynny at bwrpas diogelu | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cofnodi unrhyw bryderon a rhoi gwybod amdanynt<br>• Hybu llesiant Beth/ei thrin hi â pharch<br>• Galluogi/grymuso Beth i fynegi pryderon<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Gallai Beth ofni beth fyddai'n digwydd yn y dyfodol (e.e. ble gallai hi fyw nesaf)<br>• Gallai Beth gredu y bydd hi'n colli rheolaeth dros y sefyllfa. (e.e. eraill yn cymryd rhan/cymryd drosodd (yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol))<br>• Beth yn teimlo o dan fygythiad gan Dan os yw hi'n datgelu<br>• Gallai Beth deimlo ei bod hi ar fai (e.e. wedi ei rhoi ei hun yn y sefyllfa)<br>• Dydy Beth ddim yn sylweddoli ei bod hi wedi cael ei hesgeuluso neu ei cham-drin<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Mae angen i bawb fod yn effro i arwyddion o gam-drin (e.e. staff y clwb cinio, iechyd, gyrwyr, teulu)<br>• Mae angen i bawb weithredu ar bryderon/amheuon yn hytrach nag aros i weld nes bod pethau'n rhy hwyr (e.e. parafeddygon/cymdogion yn mynegi pryderon)<br>• Mae angen i bawb wybod y drefn ddiogelu/pwy i gysylltu â nhw (e.e. gwnaeth y tîm Iechyd atgyfeiriad diogelu)<br>• Mae angen i wasanaethau gydweithio/cyfathrebu â'i gilydd (e.e. yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a'r tîm iechyd yn gweithio gyda'i gilydd yn yr ymchwiliad)<br>• Mae angen diweddaru/hyfforddi/atgoffa staff a gwirfoddolwyr yn rheolaidd (e.e. Atgoffodd y rheolwr weithwyr am 'Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan 2019'/ methiannau difrifol)<br>• Mae'n bwysig bod gan yr unigolyn lais a rheolaeth neu efallai na fydd yn datgelu neu dderbyn help (e.e. eiriolwr annibynnol, un i un gyda Margie)<br>• Mae drwgweithredwyr yn gallu bod yn dda iawn am guddio beth sy'n digwydd/ymddygiad meithrin | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | perthynas amhriodol/twyllo gweithwyr proffesiynol (e.e. mae Dan yn yrrwr gwirfoddol)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob peth a roddir hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Rhoi cyfleoedd rheolaidd i Beth i siarad<br>• Peidio rhoi pwysau ar Beth i siarad<br>• Bod yn glir gyda Beth ynglŷn â chyfrinachedd a'i gyfyngiadau<br>• Meithrin ymddiriedaeth drwy fod yn ddibynadwy/peidio barnu/cymryd unrhyw ddatgeliadau o ddifrif<br>• Canolbwyntio ar beth mae Beth ei eisiau, nid beth mae pobl yn meddwl dylai hi ei wneud<br>• Canolbwyntio ar gryfderau Beth i helpu i fagu hunan-barch<br>• Ei gwneud yn glir y gall Beth siarad ag aelod staff unrhyw bryd<br>• Gwneud yn siŵr bod Beth yn gwybod sut i fynegi pryderon<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gallai Margie ddatgelu gwybodaeth bersonol amdani ei hun<br>• Gallai Margie ddylanwadu ar Beth yn ddamweiniol<br>• Gallai Margie gael ei themtio i roi cyngor i Beth ar sail ei phrofiad ei hun<br>• Gallai Margie deimlo'n rhwystredig â Beth gan nad yw hi'n dilyn cyngor Margie<br>• Gallai Margie wneud mwy dros Beth oherwydd ei sefyllfa/gormod o amser gyda hi/amser oddi wrth unigolion eraill<br>• Gallai Margie wneud dyfarniad am Beth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc. | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Bod yn ofalus i beidio cymryd gormod o amser gyda Beth ac anghofio am bobl eraill.<br>• Bod yn ofalus i beidio mynd y tu hwnt i gyfyngiadau ei rôl ei hun.<br>• Bod yn ofalus i beidio datgelu gormod/rhannu ei phrofiadau ei hun.<br>• Gwneud yn siŵr ei bod hi'n defnyddio goruchwyliaeth i siarad am y sefyllfa.<br>• Osgoi ymwneud â'r sefyllfa deuluol.<br>• Osgoi ymwneud â'r clebran lleol neu wrando arno.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob mantais sydd wedi'i rhoi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae'n offeryn monitro/cofnodi newidiadau y gellir ymateb iddynt ar unwaith<br>• Cofnodi beth mae'n ei hoffi/ddim yn ei hoffi/dymuniadau (e.e. gweithgareddau)<br>• Cofnodi gwybodaeth bersonol bwysig / meddyginiaeth / diwylliant<br>• Nodi risgiau<br>• Nodi beth gall Beth ei wneud a beth mae hi angen cefnogaeth ar ei gyfer<br>• Gallai roi ymdeimlad o bwrpas/gobaith/cyfeiriad i Beth<br>• Gallai hybu ymdeimlad o lesiant i Beth<br><br>**Peidiwch â derbyn** atebion â geiriad tebyg i "adnabod canlyniadau/targedau/nodau" oherwydd mae hyn yn y bonyn a'r astudiaeth achos.  Fodd bynnag, mae enghreifftiau penodol o ganlyniadau/targedau a nodau "e.e. ble i fyw yn y dyfodol" yn dderbyniol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob sgìl hyd at uchafswm o 4 marc. Rhaid i'r atebion ganolbwyntio ar sgiliau sy'n cael eu defnyddio yng nghyd-destun siarad â Beth am gynllunio.<br><br>• Gwrando gweithredol / gwneud yn siŵr bod Beth yn teimlo ei bod hi'n cael ei chlywed<br>• Dangos empathi/dealltwriaeth/defnyddio iaith ar gyfer sut mae hi'n teimlo<br>• Iaith corff agored / cyfleu cefnogaeth / cyswllt llygad / agosrwydd<br>• Dangos parch / ymatebion sydd ddim yn barnu | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cwestiynu agored / canfod beth mae Beth ei eisiau / yn ei feddwl<br>• Crynhoi'r cynnydd hyd yn hyn / ailadrodd yn ôl<br><br>**Peidiwch â derbyn** ymatebion sy'n ymwneud â ffactorau amgylcheddol, defnyddio cymhorthion ffisegol, dulliau cyfathrebu eraill fel Makaton, iaith arwyddion.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 006: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – South Lodge

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set B South Lodge | | |
|---|---|---|
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 006: Diogelu unigolion** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Canolbwyntio ar wella llesiant (e.e. mae Margie yn rhoi amser un i un)<br>• Hybu defnyddio ymyrryd yn gynnar (e.e. parafeddygon yn mynegi pryderon)<br>• Rhoi llais a rheolaeth i unigolion (e.e. parchu'r penderfyniad i beidio uwchgyfeirio'r mater)<br>• Annog cydgynhyrchu/unigolion yn ymwneud mwy â dylunio a chyflenwi gwasanaethau ac felly creu gwasanaethau mwy person-ganolog/beth sydd ei eisiau ar bobl<br>• Cefnogi darparu eiriolaeth (e.e. cafodd Beth gefnogaeth eiriolwr yn ystod yr ymchwiliad)<br>• Diogelu pobl sydd wedi'u nodi fel 'oedolion sy'n wynebu risg'. (e.e. y rheolwr yn gofyn i'r gweithwyr fod yn effro i unrhyw arwyddion posibl o gam-drin)<br>• Sicrhau bod camau'n cael eu cymryd os oes amheuaeth o gamdriniaeth neu esgeulustod (e.e. atgyfeiriad diogelu)<br>• Rhoi hawl i gael asesiad o angen/asesiad gofalwr (e.e. penderfyniad am anghenion Beth)<br>• Mae angen gwaith partneriaeth cryfach (e.e. yr heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol a'r tîm iechyd yn gweithio gyda'i gilydd)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Mae'r parafeddygon wedi mynegi pryderon / torri pont yr ysgwydd<br>• Mae'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol wedi gweithio gyda'i gilydd<br>• Roedd Annie yn ymwneud â'r mater fel aelod o'r teulu<br>• Mae'r tîm iechyd wedi gwneud atgyfeiriad diogelu<br>• Cafodd ymchwiliad diogelu ei gynnal | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Cafodd Beth gefnogaeth eiriolwr annibynnol<br>• Mae gweithwyr South Lodge wedi cael eu hatgoffa bod angen iddynt fod yn effro i arwyddion o gam-drin<br>• Mae gweithwyr proffesiynol wedi dilyn deddfwriaeth/protocolau/gweithdrefnau perthnasol<br>• Margie yn monitro Beth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth a chysylltiad.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu'r wybodaeth/dealltwriaeth a ddangosir yn benodol â Beth.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth a chysylltiad.<br>Mae'r ymateb yn ceisio gwneud cysylltiadau â Beth.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth a chysylltiad.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu'r wybodaeth/dealltwriaeth a ddangosir â sut gellid meithrin ymddiriedaeth/cysylltiad â Beth.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth a chysylltiad.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu'r wybodaeth/dealltwriaeth a ddangosir yn glir â sut gellid meithrin ymddiriedaeth/cysylltiad â Beth/gweithwyr.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• I helpu Beth i addasu i'r holl newidiadau mae hi wedi eu hwynebu<br>• I helpu Beth i deimlo'n ddiogel<br>• I helpu Beth i deimlo'n hyderus am y gefnogaeth mae hi'n ei chael<br>• I helpu Beth i deimlo y gall hi ddatgelu unrhyw gamdriniaeth bosibl<br>• I allu siarad â Beth am beth mae hi ei eisiau<br>• I gael eu grymuso i ofyn beth mae Beth ei eisiau/ei angen<br>• I allu datblygu cynllun personol gyda Beth<br>• I allu rhoi cynllun personol ar waith<br>• I hybu gofal a gwerthoedd person-ganolog<br>• I feithrin perthnasoedd cadarnhaol â Beth a'i theulu<br>• I fodloni'r ddyletswydd gofal | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • I gyfarfod i gytuno ar ffyrdd o weithio/deddfwriaeth/polisïau a gweithdrefnau | |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Drwy wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n trafod unrhyw wybodaeth am waith/Beth y tu allan i'r gwaith<br>• Drwy ddweud wrth bobl y tu allan i'r gwaith nad ydyn nhw'n trafod unrhyw wybodaeth am breswylwyr<br>• Drwy eu tynnu eu hunain o sefyllfaoedd lle mae pobl yn trafod Beth<br>• Drwy roi gwybod os ydyn nhw wedi clywed cydweithwyr yn ailadrodd clebran<br>Drwy esbonio cyfrinachedd/ffiniau proffesiynol i gydweithwyr<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob cyfrifoldeb hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn gwybod pryd mae ef yn yr adeilad<br>• Gwneud yn siŵr ei fod yn llenwi'r llyfr ymwelwyr<br>• Cofnodi unrhyw broblemau/gwrthdaro a rhoi gwybod amdanyn nhw<br>• Adnabod arwyddion posibl o gamdriniaeth bosibl neu niwed<br>• Cofnodi unrhyw arwyddion o gamdriniaeth bosibl neu niwed a rhoi gwybod amdanynt<br>• Esbonio bod rhaid iddynt roi gwybod os yw Beth yn datgelu<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Mae'r adroddiadau'n nodi'r ffactorau sydd wedi arwain at gamdriniaeth<br>• Mae'r adroddiadau'n nodi sefyllfaoedd i fod yn ymwybodol ohonynt, sy'n cynyddu risg<br>• Mae'r adroddiadau'n helpu gweithwyr i ddeall y dulliau mae drwgweithredwyr *(perpetrators)* yn eu defnyddio<br>• Mae'r adroddiadau'n nodi rhesymau cyffredin pam mae methiannau'n digwydd | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae'r adroddiadau'n cynnwys argymhellion i wasanaethau eu rhoi ar waith<br>• Gall gweithwyr asesu eu perfformiad yn erbyn yr hyn sydd ei angen<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob ffactor hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Beth yn cael ei dal yng nghanol y gwrthdaro rhwng Dan ac Annie<br>• Beth yn gorfod gwneud penderfyniad anodd ynglŷn â mynd yn ôl adref/mynd yn ôl gyda Dan<br>• Efallai y bydd Beth yn teimlo mai dim ond dau ddewis sydd ganddi/yn teimlo'n sownd. (e.e. mynd adref neu aros yn South Lodge)<br>• Mae Beth wedi cael ei gorlwytho â gormod i feddwl amdano/gormod yn digwydd ar unwaith<br>• Mae Beth yn byw mewn cymuned lle mae pobl yn siarad amdani<br>• Efallai y bydd Beth yn teimlo ei bod hi wedi colli rhywfaint o annibyniaeth/rheolaeth<br>• Efallai na fydd Beth yn teimlo'n barod i fyw mewn cartref preswyl i bobl hŷn<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Defnyddio cyfathrebu uniongyrchol (e.e. gofyn cwestiynau i Beth)<br>• Defnyddio cyfathrebu anuniongyrchol (e.e. gwneud pethau gyda Beth a sylwi ar beth mae hi'n ei hoffi/beth dydy hi ddim yn ei hoffi)<br>• Siarad â theulu Beth i ganfod oes ganddi hi unrhyw ddiddordebau/dewisiadau penodol<br>• Rhoi gwybodaeth i Beth am gyfleoedd/pethau i roi cynnig arnynt a gofyn iddi beth sydd o ddiddordeb iddi/beth sy'n bwysig iddi.<br>• Siarad â Beth am ei diddordebau a'i hobïau o'r gorffennol<br>• Cyfeirio at y cynllun personol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rhwystr hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Effeithiau iselder a gorbryder (e.e. diffyg egni, llai gweithgar, ofn)<br>• Efallai y bydd Beth yn poeni am rannu ei gwybodaeth bersonol â gweithwyr eraill<br>• Dydy Beth ddim eisiau gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol/ddim eisiau meddwl am y dyfodol<br>• Gallai Margie roi gormod o bwysau ar Beth/ mae angen cyflawni'r cynllun personol o fewn amserlen<br>• Gallai Beth sylwi bod Margie yn teimlo'n rhwystredig tuag ati<br>• Yr amgylchedd/diffyg man preifat/priodol i gael sgwrs<br>• Ofn y bydd gwrthdaro Dan/Annie yn gwaethygu<br>• Ofn embaras.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob effaith hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Colli hyder<br>• Llai o hunan-barch/teimlo'n ddiwerth<br>• Colli rheolaeth/annibyniaeth<br>• Ansicrwydd am y dyfodol<br>• Sioc<br>• Dryswch am beth sydd wedi digwydd<br>• Mwy o siawns o iselder a gorbryder<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am unrhyw un o'r pwyntiau, hyd at uchafswm o 1 marc.<br><br>• Gwell dealltwriaeth o beth sydd wedi rhoi Beth yn y sefyllfa hon<br>• Dangos mwy o empathi tuag at Beth<br>• Deall pam dydy Beth ddim eisiau gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol<br>• Efallai y bydd Margie yn fwy amyneddgar neu'n dangos mwy o amynedd tuag at Beth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 1 marc |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 006: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – South Lodge

| | | |
|---|---|---|
| | **Cynllun Marcio – Cwestiwn Set C South Lodge** | |
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 006: Diogelu unigolion** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Helpu i adnabod arwyddion/dangosyddion posibl o gam-drin<br>• Rhoi diffiniadau o gam-drin/bod yn agored i niwed<br>• Nodi sut mae asiantaethau'n gallu gweithio gyda'i gilydd<br>• Disgrifio gweithdrefnau diogelu<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Mae'n Ddyletswydd Gofal / dyletswydd foesegol foesol iddyn nhw<br>• I fodloni deddfwriaeth<br>• I gadw at ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt / polisïau a gweithdrefnau / disgrifiad swydd<br>• Er mwyn gallu parhau i ddiogelu Beth<br>• I gynnal safonau uchel<br>• I gydymffurfio â gofynion rheoleiddio (e.e. Arolygiaeth Gofal Cymru)<br>• I osgoi unrhyw achos disgyblu<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gwrando ar Beth o safbwynt annibynnol<br>• Esbonio i Beth beth yw ei hawliau<br>• Esbonio gwybodaeth mewn ffordd mae hi'n gallu ei deall<br>• Esbonio sut mae'r system gofal cymdeithasol yn gweithio (e.e. cyllid, amrywiaeth o lety)<br>• Ei helpu hi i weld opsiynau posibl (e.e. ble i fyw, ddylai hi adael Dan ai peidio) | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Rhoi gwybodaeth/ei helpu hi i wneud dewisiadau doeth<br>• Cyfeirio at wasanaethau sydd ar gael iddi (e.e. Relate, cwnsela)<br>• Rhoi cefnogaeth mewn cyfarfodydd gyda theulu/gweithwyr proffesiynol eraill<br>• Ei chynrychioli hi os yw Beth yn gofyn am hyn<br>• Rhoi help i lenwi ffurflenni<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>Gwneud yn siŵr ei bod hi'n gwybod<br>• ei bod hi'n cael dewis pwy sy'n ymweld<br>• ei bod hi'n cael dewis pa mor aml mae pobl yn ymweld<br>• ei bod hi'n cael dewis ble i gyfarfod ag ymwelwyr<br>• sut i dynnu sylw staff/seinio larwm<br>• am gyfrinachedd mewn perthynas â datgeliadau<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Dweud wrth Margie beth yw cyfyngiadau rôl ei swydd<br>• Nodi'r ymddygiadau/gwerthoedd gofynnol<br>• Goruchwylio Margie er mwyn trafod ei gwaith/materion diogelu<br>• Dweud wrth Margie ble i fynd i gael arweiniad ynglŷn â phryderon am y posibilrwydd o gamdriniaeth a niwed<br>• Diweddaru hyfforddiant diogelu Margie yn rheolaidd<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt sy'n cael ei roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gwneud amser i wrando<br>• Peidio bod yn ddyfarniadol (e.e. peidio chwerthin neu wneud hwyl am ben sefyllfa gartref Beth)<br>• Peidio rhoi pwysau ar Beth (e.e. peidio gofyn cwestiynau personol)<br>• Defnyddio dull person-ganolog / gofyn i Beth beth mae hi ei eisiau<br>• Dangos empathi / ceisio deall sut mae Beth yn teimlo | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Peidio rhoi cyngor i Beth am ei sefyllfa<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am y ffactorau.<br>Dydy'r ymateb ddim yn cysylltu'r ffactorau a nodir yn benodol â sefyllfa Beth.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am ffactorau perthnasol. Mae'r ymateb yn ceisio cysylltu'r ffactorau a nodir â sefyllfa Beth.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth am amrywiaeth o ffactorau perthnasol.<br>Mae'r ymateb yn cysylltu'r ffactorau a nodir â sut gellid eu cymhwyso nhw mewn perthynas â sefyllfa Beth.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am amrywiaeth o ffactorau perthnasol. Mae'r ymateb yn cysylltu'r ffactorau a nodir yn glir â sut gellid eu cymhwyso nhw mewn perthynas â sefyllfa Beth.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br>• Mae Beth yn byw ar ei phen ei hun heb aelod o'i theulu'n agos<br>• Mae gan Beth hanes o gyfnodau o iselder a gorbryder<br>• Mae gan Beth asedau ariannol / tŷ<br>• Roedd gan Dan gyfle rheolaidd ar gyfer ymddygiad 'meithrin perthynas amhriodol' ar y bws i'r clwb cinio ac yn ôl<br>• Roedd gan Dan reswm dilys i weld cartref Beth a'i heiddo materol. | 4 marc |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>Gallai Beth fod yn poeni<br>• am weithwyr yn rhannu gwybodaeth â'r bobl anghywir (e.e. peidio ymddiried yn y gweithwyr, gallen nhw siarad ag Anne neu â'i gilydd)<br>• y gallai'r gweithwyr glebran gyda phobl leol yn y gymuned ehangach<br>• am yr effaith ar Dan/Annie (e.e. creu mwy o wrthdaro rhyngddyn nhw)<br>• am golli rheolaeth dros y sefyllfa (e.e. pobl eraill/heddlu/gweithwyr cymdeithasol yn cymryd rheolaeth)<br>• am ymateb gweithwyr/pobl. (e.e. peidio credu Beth, meddwl ei bod hi'n wirion) | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • y gallai Dan gael ei atal rhag ymweld.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob dull hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Bod yn berson-ganolog (e.e. bodloni dewisiadau)<br>• Gofyn i Beth beth hoffai hi ei wneud<br>• Rhannu pethau'n gamau hylaw (e.e. gofal personol)<br>• Canfod sgiliau presennol Beth<br>• Helpu Beth i ddatblygu sgiliau newydd<br>• Gwneud pethau ar y cyd â Beth/ hybu annibyniaeth (e.e. ei gofal personol ei hun)<br>• Awgrymu tasgau dyddiol yr hoffai Beth barhau â nhw (e.e. gosod y bwrdd/tynnu llwch)<br>• Osgoi cymryd rheolaeth<br>• Atgyfnerthu camau cadarnhaol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob nodwedd hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>• Gwneud yn siŵr bod Beth yn teimlo bod rhywun yn gwrando arni hi / gwrando gweithredol.<br>• Bod yn ymwybodol o gyfathrebu dieiriau / agosrwydd / cyswllt llygad<br>• Bod yn ymwybodol o dôn / defnydd o iaith<br>• Dangos empathi<br>• Dangos derbyniad / peidio barnu (e.e. Beth ddim eisiau ymuno)<br>• Peidio â chynhyrfu/dangos amynedd (e.e. Beth ddim eisiau gwneud dim byd)<br>• Osgoi bod yn nawddoglyd (e.e. awgrymu ei bod hi'n edrych ar yr ochr orau neu ddatganiadau tebyg eraill)<br>• Canolbwyntio ar gryfderau Beth a'i chyraeddiadau hyd yn hyn<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm sydd wedi'i roi hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• I gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau i gyd/annog cyfranogiad cymdeithasol | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • I gael gwybod am y newyddion/digwyddiadau lleol diweddaraf<br>• I wneud ffrindiau newydd.<br>• I fagu hyder/hunan-barch<br>• I leihau iselder/gorbryder<br>• I osgoi'r teimlad o ddibyniaeth/sefydliadoli<br>• I weld eu bod nhw'n dal i fod yn rhan o'r gymuned<br>• I hybu gweithgarwch corfforol/'awyr iach'/'newid golygfa'<br>• I gael eu gweld<br>• I elwa o amrywiaeth ehangach o weithgareddau/dysgu gan arbenigwyr<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 006: 20 marc** | **30 marc** |

## Astudiaeth Achos – Mair

Rydych chi'n mynd i ddarllen astudiaeth achos am Cariad Mawr, asiantaeth sy'n darparu cefnogaeth gartref.

Dyma'r bobl y byddwch chi'n darllen amdanynt fel rhan o'r astudiaeth achos hon:

| | |
|---|---|
| Mair | Unigolyn sy'n cael cefnogaeth gan Cariad Mawr |
| Gail | Gweithiwr gofal a chefnogaeth sy'n gweithio i Cariad Mawr |
| Cymydog | Cymydog Mair |
| Rheolwr llinell | Rheolwr llinell Gail yn Cariad Mawr |

Dydy'r astudiaeth achos hon ddim yn seiliedig ar sefydliad nac unigolion go iawn.

Mae Mair yn 81 oed a chyn iddi ymddeol roedd hi'n gogydd ysgol. Mae Mair yn byw ar gyrion y dref fach lle roedd hi hefyd yn gweithio. Fe wnaeth hi etifeddu'r tŷ gan ei rhieni a byw yno drwy gydol ei 52 mlynedd o briodas. Bu farw ei gŵr 18 mis yn ôl. Roedden nhw'n adnabyddus yn y gymuned ac yn chwarae rhan weithgar yn y capel lleol. Roedd Mair yn gwirfoddoli mewn siop elusen leol tan yn ddiweddar. Ar wahân i gefnder sy'n byw yng Nghanada, does ganddi hi ddim teulu.

Chwe mis yn ôl, cafodd Mair strôc a threuliodd hi dros fis yn yr ysbyty, yn rhannol ar ward adsefydlu. Roedd Mair yn awyddus i fynd yn ôl adref a bod mor annibynnol â phosibl. Cafodd hi asesiad, a'r penderfyniad oedd y gallai hi wneud hynny gyda phecyn cefnogaeth gartref. Mae Mair yn gallu symud o gwmpas drwy ddefnyddio ffon gerdded ond dydy hi ddim wedi gallu defnyddio ei braich chwith ers y strôc. Mae'r strôc hefyd wedi effeithio ar ei lleferydd i raddau. Mae cyfnod o bythefnos o ailalluogi yn ei chartref ei hun wedi ei helpu hi i reoli rhai tasgau bywyd bob dydd, er bod arni angen cymorth i ymolchi a gwisgo/dadwisgo bob dydd. Mae Mair yn talu ffrind a chymydog i roi cymorth i olchi dillad a gwneud rhywfaint o'r gwaith tŷ; mae hi hefyd yn coginio rhai prydau bwyd ac yn gyrru Mair i'r archfarchnad leol i wneud ei siopa wythnosol.

Mae Gwasanaethau Gofal Cariad Mawr yn asiantaeth gofal yn y cartref sy'n gwasanaethu llawer o drefi bach a phentrefi yn Ne Ddwyrain Cymru. Maen nhw'n darparu gofal personol ac ymarferol i fodloni anghenion unigolion a gofalwyr sydd ag angen gofal a chefnogaeth i fyw yn eu cartrefi a'u cymuned eu hunain yn annibynnol. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ganmol am ddarparu gofal person-ganolog.

Mae'r asiantaeth yn cyflogi 45 o weithwyr gofal a chefnogaeth sy'n cefnogi dros 70 o unigolion i fyw yn eu cartrefi eu hunain.

Mae Mair yn cael dau ymweliad y dydd gan Cariad Mawr.

Mae'r gweithwyr gofal a chefnogaeth yn y cartref yn cefnogi Mair ar sail rota ac maen nhw wedi datblygu perthynas broffesiynol dda â hi'n gyflym. Mae Mair wedi gallu gwneud yn siŵr eu bod nhw'n ei deall hi. Mae'r gweithwyr wedi cytuno ar amrywiaeth o systemau syml i ddangos pryd mae Mair yn gyfforddus i symud i'r cam cefnogaeth nesaf. Er enghraifft, wrth ddewis ei dillad, bydd y gweithwyr yn dangos un opsiwn ar y tro iddi ac yn gofyn iddi ddewis. Bydd Mair yn ymateb drwy godi bawd neu droi'r bawd i lawr. Mae'r ffyrdd hyn o gyfathrebu wedi'u dogfennu yn ei chynllun personol.

Mae Gail yn un o weithwyr gofal a chefnogaeth rheolaidd Mair. Mae Gail wedi dychwelyd i'r gwaith yn ddiweddar ar ôl bod yn gofalu am ei mam 70 oed sydd nawr wedi marw. Mae Gail yn newydd i weithio mewn gofal ac wrth ei bodd yn ei rôl; mae hi ar ganol ei chyfnod ymsefydlu. Mae gan Gail gydberthynas ragorol â Mair ac maen nhw'n ffrindiau ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae Gail yn rheolaidd yn nôl papur newydd i Mair ar ei ffordd i'r ymweliad bore – mae Mair yn ei thalu hi am hwn. Ar achlysur, mae Gail hefyd wedi prynu rhai eitemau i Mair fel offer ymolchi a dillad. Dydy siopa ddim yn rhan o gynllun personol Mair, felly dydy'r tasgau hyn ddim yn cael eu cofnodi. Mae Mair yn talu Gail am unrhyw eitemau mae hi'n eu prynu; dydy hi ddim yn gofyn am dderbynebau gan ei bod hi'n hapus â chost yr eitemau. Gail yw'r unig weithiwr mae Mair yn gofyn iddi fynd i nôl ei siopa; mae hi wedi gofyn i'r gweithwyr eraill ond maen nhw wedi gwrthod.

Yn ddiweddar, cwympodd Mair yn ei chartref pan oedd hi ar ei phen ei hun a thorri asgwrn y forddwyd *(femur)*, felly roedd rhaid iddi fynd i'r ysbyty. Yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty, mae ei chymydog a Gail yn ymweld yn aml. Mae Gail yn sylwi mai dim ond un gŵn nos sbâr sydd gan Mair ac yn cynnig prynu un arall. Mae Mair yn talu Gail am hwn pan mae hi'n dod ag ef i'r ysbyty. Mae Gail yn prynu eitemau eraill fel offer ymolchi, melysion a chylchgronau ac mae Mair yn ei thalu hi'n ôl. Mae Mair yn penderfynu yr hoffai hi gael pâr newydd o sliperi ac yn rhoi ei phwrs i Gail gan ddweud wrthi am fynd â'r pwrs. Mae Gail yn dweud y gwnaiff hi ddod â'r pwrs yn ôl y tro nesaf.

Dydy Gail ddim yn dda a dydy hi ddim yn gallu ymweld am dros wythnos. Mae hi'n anfon neges at Mair ar y cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod iddi. Mae'r cymydog yn mynd â diodydd meddal i'r ysbyty i Mair ac mae Mair yn esbonio nad yw hi'n gallu talu gan fod ei phwrs gan Gail. Mae hi'n gwybod bod Mair yn hoffi cadw cryn dipyn o arian yn ei phwrs felly mae hi'n ffonio Cariad Mawr i gael gwybod ble mae Gail yn byw er mwyn iddi allu mynd i gasglu'r pwrs i Mair. Mae rheolwr llinell Gail yn gofyn iddi hi fynd i'r swyddfa i gael trafodaeth am alwad ffôn y cymydog. Mae Gail yn esbonio ei bod hi wedi bod yn siopa dros Mair ond nad yw hi wedi rhoi derbynebau i Mair ac na all hi gofio cyfanswm yr eitemau mae hi wedi eu prynu na beth yw'r eitemau i gyd. Mae ei rheolwr yn dweud ei bod yn bosibl nad yw hi wedi dilyn y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ac y bydd angen i'r asiantaeth ymchwilio ymhellach. Yn y cyfamser, mae'r rheolwr yn awgrymu bod Gail yn darllen am fethiannau difrifol a'r gwersi i'w dysgu o adolygiadau ac adroddiadau diogelu.

# Cwestiwn Set A Cynllun Marcio – Mair

<table>
<tr><td colspan="3">Cynllun Marcio – Cwestiwn A Mair</td></tr>
<tr><td></td><td>Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)<br>Uned 006: Diogelu unigolion</td><td></td></tr>
</table>

| **Cwestiwn** | **Canllaw ateb** | **Uchafswm marciau** |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Bodloni gwerthoedd Cariad Mawr<br>• Bodloni gofynion rheoleiddio/arolygiad<br>• Bodloni gofynion deddfwriaethol<br>• Cynnal/gwella eu henw da (e.e. mae ganddyn nhw enw da am ddarparu gofal person-ganolog)/atal niwed i'w henw da/sylw yn y cyfryngau<br>• Diogelu unigolion<br>• Cynnal ymddiriedaeth/hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol<br>• Osgoi colli incwm<br>• Osgoi risg i'w statws cofrestru<br>• Osgoi erlyniadau troseddol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae Mair wedi gallu mynd yn ôl adref o'r ysbyty yn unol â'i dymuniadau<br>• Mae Mair wedi cael ei chefnogi i fynd yn ôl adref (e.e. ward adsefydlu)<br>• Mae Mair wedi cael rhaglen ailalluogi am bythefnos / cefnogi ei dymuniad i fod yn annibynnol<br>• Maen nhw wedi cytuno ar becyn gofal a chefnogaeth gyda Mair / fel y gall hi fyw yn ei chartref ei hun<br>• Mae gweithwyr a Mair wedi cytuno ar ei hoff ddulliau cyfathrebu (e.e. codi bawd neu fawd i lawr)<br>• Mae holl hoff ffyrdd Mair o gyfathrebu wedi cael eu dogfennu yn y cynllun personol<br>• Mae cymydog Mair yn mynd â hi i siopa<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 3. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 marc.<br><br>• Mae'n annog cynnwys unigolion wrth gynllunio eu gofal<br>• Mae'n gallu helpu i sefydlu perthnasoedd<br>• Mae'n hybu amrywiaeth<br>• Mae'n defnyddio ei hoff ddull cyfathrebu / hybu ymdeimlad o lesiant<br>• Mae'n cael gwared ag unrhyw rwystrau<br>• Mae'n dangos parch rhwng y naill a'r llall<br>• Mae'n caniatáu i anghenion unigol gael eu bodloni<br>• Mae'n hybu annibyniaeth<br>• Mae'n hybu cyfranogiad gweithredol<br>• Mae'n cynnal hawliau dynol Mair<br>• Mae'n hybu urddas a pharch<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob effaith hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>Mair<br>• Mae hi'n gallu aros yn ei chartref ei hun/bod mor annibynnol â phosibl<br>• Mae hi'n teimlo'n saff ac yn ddiogel yn ei chartref ei hun<br>• Mae ganddi hi bobl i'w helpu hi i barhau â'r sgiliau newydd mae hi wedi eu dysgu wrth ailalluogi<br>• Mae hi'n gallu cyfathrebu â'r gweithwyr cefnogi (e.e. codi bawd)<br>• Mae hi'n adeiladu rhwydwaith cefnogaeth newydd/adeiladu ymddiriedaeth/cydberthynas â'r gweithwyr<br>• Mae hi'n cael cefnogaeth broffesiynol/wedi'i rheoleiddio<br>• Mae ganddi lais yn ei gofal a'i chefnogaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 marc |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob gweithred hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Gail:<br>• Dylai hi fod wedi dweud bod bylchau yn y ddarpariaeth/y gallai fod angen mwy o wasanaethau (e.e. prynu'r papur dyddiol) | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Ddylai hi ddim bod wedi croesi ffiniau proffesiynol yn ei pherthynas â Mair<br>• Ddylai hi ddim cysylltu ag unigolion ar gyfryngau cymdeithasol/ddylai hi ddim derbyn gwahoddiadau cyfryngau cymdeithasol<br>• Dylai hi fod wedi dilyn polisïau a gweithdrefnau (e.e. cynllun personol/cefnogaeth ar gyfer gofal personol yn unig)<br>• Dylai hi fod wedi dogfennu'r holl gefnogaeth mae Mair wedi ei chael<br>• Ddylai hi ddim bod wedi cymryd pwrs/arian Mair<br>• Dylai hi fod wedi cael derbynebau am yr eitemau mae hi wedi'u prynu<br>• Dylai hi fod wedi sylweddoli ei bod hi'n cynrychioli Cariad Mawr<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am amgylchiadau sy'n achosi risg o niwed neu gamdriniaeth i rai unigolion yn fwy nag eraill.<br>Dydy'r ymateb ddim yn gwneud cysylltiadau penodol rhwng yr amgylchiadau a sefyllfa Mair.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am amgylchiadau perthnasol sy'n achosi risg o niwed neu gamdriniaeth i rai unigolion yn fwy nag eraill.<br>Mae'r ymateb yn ceisio gwneud rhai cysylltiadau rhwng yr amgylchiadau dan sylw a sefyllfa Mair.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da â gwybodaeth a dealltwriaeth am amryw o amgylchiadau perthnasol sy'n achosi risg o niwed neu gamdriniaeth i rai unigolion yn fwy nag eraill.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau â sut gallai'r amgylchiadau dan sylw fod wedi cyfrannu at sefyllfa Mair.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol â gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am amryw o amgylchiadau perthnasol sy'n achosi risg o niwed neu gamdriniaeth i rai unigolion yn fwy nag eraill.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau clir a manwl â sut mae'r amgylchiadau dan sylw wedi cyfrannu at sefyllfa Mair.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br><br><u>Amgylchiadau Mair</u><br>• Unigolyn hŷn<br>• Wedi mynd drwy newidiadau mawr | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Ei gŵr wedi marw (e.e. dim ond 18 mis yn ôl),<br>• Wedi cael strôc<br>• Wedi cwympo<br>• Wedi cael dau gyfnod yn yr ysbyty/ yn yr ysbyty am yr ail dro<br>• Nawr yn derbyn gofal<br>• Dim teulu'n byw'n agos<br>• Mae ganddi hi ei chartref/asedau ei hun (e.e. Cadw symiau mawr o arian)<br>• Mae hi'n gorfforol fregus<br><br><u>Rhesymau pam mae hi'n wynebu risg</u><br>• (Wedi mynd) yn unig/ddim yn gallu mynd allan i'w chymuned (cystal)/defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol<br>• Effaith anffafriol ar ei llesiant cymdeithasol (e.e. ddim yn gallu cymryd rhan yn yr un gweithgareddau, gwirfoddoli)/efallai ei bod hi'n teimlo'n unig<br>• Effaith anffafriol ar lesiant corfforol (e.e. gallai hi ddioddef nam gwybyddol/lleferydd)<br>• Dibynnu ar bobl eraill i gael gofal (e.e. ei chymydog/ Cariad Mawr)<br>• Efallai nad yw hi'n ymwybodol o'i hawliau/ i fynegi pryderon<br>• Mynd yn ddibynnol ar Gail<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 7. | Dyfarnwch 1 Marc am bob pwynt sy'n cael sylw hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>Gallai Mair<br>• Pryderu am oblygiadau i Gail/achosi helynt i Gail<br>• Peidio â sylweddoli bod lle i bryderu (e.e. peidio â rhoi'r pwrs yn ôl)<br>• Ymddiried yn llwyr yn Gail<br>• Poeni na wnaiff neb ei chredu hi<br>• Poeni y bydd rhoi gwybod am hyn yn effeithio ar y gofal mae hi'n ei gael<br>• Poeni y bydd rhoi gwybod am hyn yn effeithio ar ei chyfeillgarwch â Gail<br>• Efallai nad yw hi'n gwybod sut i roi gwybod am bryderon<br>• Canfod/teimlo bod ei nam ar ei lleferydd yn ei gwneud hi'n anodd cyfathrebu â phobl anghyfarwydd/ gallai hi deimlo embaras | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Teimlo embaras/cywilydd/euogrwydd am ei bod hi yn y sefyllfa hon, h.y. ymddiried yn Gail<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o bedwar marc.<br><br>Dylai gweithwyr<br>• Gwneud yn siŵr bod eu hyfforddiant diogelu'n gyfredol<br>• Bod yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain o ran diogelu h.y. dyletswydd i roi gwybod.<br>• Awgrymu bod Mair yn defnyddio eiriolwr annibynnol<br>• Sicrhau bod Mair yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chadw symiau mawr o arian<br>• Atal ynysigrwydd/ annog ymweliadau gan/â ffrindiau/gweithgareddau /cymunedau o'r gorffennol (e.e. capel, cynnal ei rhwydwaith cymdeithasol)<br>• Gwneud yn siŵr bod ganddi hi lais, dewis, rheolaeth o ran penderfyniadau am ei chefnogaeth<br>• Gwneud yn siŵr bod Mair yn gwybod rôl a chyfrifoldebau pob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'i gofal.<br>• Gwneud yn siŵr bod Mair yn deall cwynion ac adborth/sut i fynegi pryder<br>• Rhoi gwybod am fentrau cenedlaethol i addysgu am ffyrdd o fod yn ddiogel (e.e. diogelwch/twyll neu sgamiau)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc<br><br>• Peidio â gwneud ffrindiau ag unigolion maen nhw'n eu cefnogi<br>• Peidio â gwneud ffrindiau â theuluoedd/gofalwyr unigolion maen nhw'n eu cefnogi<br>• Peidio â rhannu gwybodaeth bersonol am yr unigolion maen nhw'n eu cefnogi<br>• Peidio â rhannu postiadau/ffotograffau/hoffi/fideos amhriodol sy'n bwrw amheuaeth ar eu haddasrwydd i ymarfer.<br>• Peidio â rhannu eu lleoliad/gosodiadau lleoliad wrth gynnal ymweliadau<br>Dilyn polisi cyfryngau cymdeithasol y gweithle/GDPR/ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob mantais hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>Gall eiriolwr wneud y canlynol:<br>• Rhoi safbwynt diduedd / nid yw'n cymryd ochrau<br>• Gwneud yn siŵr bod safbwyntiau Mair yn cael eu cynrychioli<br>• Amddiffyn hawliau/pennaf les Mair/ei chadw hi'n ddiogel<br>• Gwneud yn siŵr bod Mair yn gwybod sut i'w chadw ei hun yn ddiogel yn y dyfodol<br>• Esbonio'r broses ymchwilio /rolau gwahanol wasanaethau/gweithwyr proffesiynol i Mair<br>• Gwneud yn siŵr bod ystod lawn o'r gwasanaethau/cefnogaeth sydd eu hangen ar gael i Mair<br>• Cefnogi Mair i gyfathrebu â gwasanaethau/gweithwyr proffesiynol eraill (e.e. mae ganddi hi nam ar y lleferydd)<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 marc |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob gweithred am 1 marc yn unig.<br><br>• Atgoffa Gail o'i hymarfer (e.e. mynd y tu allan i'r cynllun personol)<br>• Annog Gail i ddweud wrth y rheolwr/swyddfa am y siopa ychwanegol<br>• Dilyn polisi a gweithdrefnau gan fod ganddynt ddyletswydd i roi gwybod am bryderon am y sefyllfaoedd (e.e. siopa ychwanegol)<br>• Cofnodi/rhoi gwybod am ffeithiau sy'n cael eu dweud neu eu harsylwi.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 1 marc |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 006: 20 marc** | **30 marc** |

# Cwestiwn Set B Cynllun Marcio – Mair

| Cynllun Marcio – Cwestiwn Set B Mair | | |
|---|---|---|
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 006: Diogelu unigolion** | |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc<br><br>• Fel bod Mair yn teimlo'n ddiogel/wedi'i diogelu<br>• Mae'n hybu iechyd a llesiant Mair (emosiynol a/neu gorfforol)<br>• Gall annog Mair i ymddiried yng ngweithwyr Cariad Mawr<br>• Gall annog cydberthynas rhwng Mair a'r gweithwyr<br>• Er mwyn cynnal hawliau/ hawliau dynol/hawl i breifatrwydd Mair<br>• Er mwyn bodloni /ystyried dewisiadau/ dymuniadau/safbwyntiau Mair<br>• I ddangos eu bod nhw'n gwerthfawrogi cefndir/diwylliant/hunaniaeth Mair (e.e. capel)<br>• Hybu cydraddoldeb/amrywiaeth/cynhwysiant<br>• Fel ei bod hi'n aros mor annibynnol â phosibl/cynyddu annibyniaeth<br>• Fel bod Mair yn teimlo ei bod hi'n ganolog i'w gofal a'i chefnogaeth<br>• Fel bod gan Mair ddewis, llais a rheolaeth/cydgynhyrchu/cydsyniad<br>• Er mwyn cefnogi Mair i gymryd risgiau mewn ffordd gadarnhaol/<br>• Er mwyn cefnogi Mair â'r hyn mae hi'n gallu ei wneud/ei chryfderau<br>• Er mwyn darparu gofal a chefnogaeth i Mair yn unol â'r holl ofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Sicrhau parhad/cysondeb gofal<br>• Rhoi cyfarwyddiadau/gwybodaeth ynglŷn â sut i gefnogi unigolion<br>• Bodloni anghenion gofal a chefnogaeth a nodwyd<br>• Gwneud yn siŵr eu bod nhw'n darparu gofal a chefnogaeth mewn ffordd person-ganolog | 3 marc |

<table>
<tr><th>Cwestiwn</th><th>Canllaw ateb</th><th>Uchafswm marciau</th></tr>
<tr><td></td><td><ul><li>Gwybod pa ganlyniadau dylai fod gweithwyr yn gweithio tuag atynt</li><li>Cefnogi'r cynlluniau adolygu neu ofal a chefnogaeth</li><li>Bodloni gofynion rheoleiddio / Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA)</li><li>Gwneud yn siŵr bod dull cyfannol/ dull darlun llawn yn cael ei ddefnyddio i fodloni anghenion gofal a chefnogaeth</li><li>Fel bod unigolion/teuluoedd/gofalwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl</li></ul>Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.</td><td></td></tr>
<tr><td>3.</td><td>Dyfarnwch 1 marc am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 marc.<ul><li>Dogfennu a chofnodi'n dda</li><li>Awgrymu gwahanol fathau/dulliau o gyfathrebu i Mair</li><li>Defnyddio ystumiau neu arwyddion syml</li><li>Gweithio mewn ffordd person-ganolog i ddeall anghenion Mair/ adeiladu ymddiriedaeth</li><li>Ystyried cymhorthion cyfathrebu fel anogwyr gweledol</li><li>Archwilio posibiliadau technoleg gynorthwyol.</li><li>Gallai gweithwyr proffesiynol eraill fel therapyddion iaith a lleferydd ddarparu cymorth.</li><li>Mae'n bosibl y gallai Mair ysgrifennu</li></ul>Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.</td><td>2 farc</td></tr>
<tr><td>4.</td><td>Dyfarnwch 1 marc am bob newid, hyd at uchafswm o 2 farc.<ul><li>Mae Mair wedi colli ei gŵr yn ddiweddar</li><li>Mae Mair wedi cael strôc</li><li>Mae Mair wedi treulio cyfnod oddi cartref yn yr ysbyty</li><li>Mae Mair wedi treulio amser yn gwneud gwaith adsefydlu ac ailalluogi</li><li>Mae Mair yn gorfod ailddysgu sgiliau a/neu addasu i ffyrdd newydd o wneud tasgau bob dydd</li><li>Mae Mair wedi cael nam ar ei lleferydd/mae'r strôc wedi effeithio ar ei lleferydd</li><li>Mae Mair yn dibynnu ar Cariad Mawr/ei chymydog i gael gofal a chefnogaeth</li><li>Mae ymwelwyr gofal a chefnogaeth yn dod i gartref Mair</li><li>Dydy Mair ddim yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol y tu allan i'w chartref</li></ul></td><td>2 farc</td></tr>
</table>

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob cyfrifoldeb hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gwneud yn siŵr bod hyfforddiant diogelu'n gyfredol<br>• Dyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon<br>• Dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu / chwythu'r chwiban<br>• Gwybod sut i roi gwybod am bryderon/i bwy i roi gwybod<br>• Cofnodi/dogfennu pryderon yn ffeithiol/yn gywir<br>• Esbonio eu dyletswydd i rannu pryderon am ddiogelu/peidio ag addo cadw gwybodaeth yn gyfrinach<br>• Cefnogi unigolion i gynnal eu hannibyniaeth/gofal person-ganolog/ddim wedi'i arwain gan y gwasanaeth<br>• Adnabod arwyddion a symptomau cam-drin<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 2 marc.<br><br>Dydy'r cymydog<br>• ddim yn sylweddoli bod hwn yn bryder diogelu / bod yna broblem<br>• Efallai fod y cymydog yn poeni am unrhyw ganlyniadau i Mair / effaith ar ofal Mair<br>• Efallai fod y cymydog yn poeni am ganlyniadau i Gail / achosi helynt i Gail<br>• Efallai fod y cymydog yn poeni/ teimlo'n euog am nad yw hi wedi bod yn helpu Mair i siopa gymaint ag y gallai hi<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 marc |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 4 marc.<br>• Dydy Gail ddim wedi dilyn y cynllun personol/mae hi wedi cyflwyno tasgau ychwanegol/mae Mair wedi dod i ddibynnu ar Gail<br>• Dydy Gail ddim yn dogfennu'r tasgau ychwanegol | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Wnaeth Gail ddim rhoi gwybod i'w rheolwr llinell y gallai fod gan Mair anghenion ychwanegol sydd ddim yn cael eu bodloni<br>• Mae ffiniau proffesiynol wedi cael eu croesi/mae Gail wedi ffurfio cyfeillgarwch yn hytrach na pherthynas broffesiynol<br>• Dydy Gail ddim wedi darparu derbynebau<br>• Cymerodd Gail bwrs Mair heb wirio a chytuno ymlaen llaw faint o arian oedd ynddo<br>• Mae Gail yn cysylltu â Mair ar gyfryngau cymdeithasol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas.<br>Dydy'r ymateb ddim yn gwneud cysylltiadau penodol rhwng ymddiriedaeth a chydberthynas a diogelu Mair.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas.<br>Mae'r ymateb yn ceisio gwneud rhai cysylltiadau rhwng ymddiriedaeth a chydberthynas a diogelu Mair.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da â gwybodaeth a dealltwriaeth am bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau â sut gallai ymddiriedaeth a chydberthynas gyfrannu at ddiogelu Mair.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol â gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau clir a manwl â sut gallai ymddiriedaeth a chydberthynas gyfrannu at ddiogelu Mair.<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br>• Mae'n effeithio ar lesiant Mair<br>• Mae perthnasoedd cadarnhaol yn ffyrdd ystyrlon o ryngweithio â phobl eraill (e.e. mynegi pryderon)<br>• Bod yn weladwy /annog Mair i gymryd rhan yn ei chymuned eto.<br>• Adeiladu gwydnwch/hyder – cefnogi Mair wrth iddi ymdopi â newidiadau<br>• Mae'n annog pobl i fod yn agored ac yn onest<br>• Dilyn y Cod Ymddygiad/Ymarfer Proffesiynol. | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Adnabod y berthynas fel partneriaeth gyfartal sy'n golygu nad yw'r gweithiwr yn cael y pŵer/yn camddefnyddio'r pŵer<br><br>• *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 9. | Dyfarnwch 1 marc am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc<br><br>• Dilyn y cod ymddygiad/ymarfer proffesiynol<br>• Cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf sydd ar gael<br>• Dilyn polisïau a gweithdrefnau /ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt<br>• Rhoi gwybod am anghenion cefnogi ychwanegol/bylchau yn y ddarpariaeth<br>• Gweithio yn unol â'i rôl a'i lefel cyfrifoldeb (e.e. dim cytuno ar y siopa)/ Dim ond cwblhau'r tasgau sydd wedi'u hamlinellu yn y cynllun personol<br>• Cadw cofnod/derbynebau o unrhyw wario sydd ei angen<br>• Peidio â defnyddio cyfryngau cymdeithasol gydag unigolion<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gwneud yn siŵr bod unigolion yn gwybod eu hawliau<br>• Gwneud unigolion yn gyfrifol am eu gofal h.y. llais a rheolaeth<br>• Darparu gofal mewn person-ganolog/hybu annibyniaeth<br>• Rhoi gwybodaeth i unigolion/teuluoedd/gofalwyr am sut i fynegi pryderon<br>• Gwneud yn siŵr y darperir gwybodaeth glir am sut y darperir gwasanaethau a'r disgwyliadau o'r holl staff<br>• Esbonio polisïau a gweithdrefnau cwynion i unigolion/ teuluoedd/gofalwyr<br>• Darparu'r holl ddogfennau ar wahanol fformatau hygyrch/ print bras, hoff ddewisiadau iaith<br>• Darparu diwylliant agored a gonest<br>• Darparu ffyrdd i unigolion/teuluoedd/gofalwyr gysylltu â'r asiantaeth gofal yn y cartref | 3 marc |

<table>
<tr><th>Cwestiwn</th><th>Canllaw ateb</th><th>Uchafswm marciau</th></tr>
<tr><td></td><td>Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.</td><td></td></tr>
<tr><td>11.</td><td>Dyfarnwch 1 marc am bob gweithgaredd hyd at uchafswm o 1 marc.<ul><li>Mynychu cyfarfodydd gyda Mair</li><li>Cofnodi'r cyfarfodydd mae hi'n eu mynychu gyda Mair</li><li>Cefnogi Mair i ddeall beth sy'n cael ei drafod</li><li>Ffurfio barn ddiduedd/peidio â chymryd ochrau</li><li>Gwneud yn siŵr bod llais Mair yn cael ei glywed/ ei gymryd o ddifrif</li><li>Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwrando ar Mair wrth wneud penderfyniadau</li><li>Cefnogi Mair i wybod sut i'w chadw ei hun yn ddiogel yn y dyfodol / cael gwasanaethau cefnogi</li><li>Cefnogi Mair i gyfathrebu â gwasanaethau/gweithwyr proffesiynol eraill h.y. mae ganddi hi nam ar y lleferydd/mae'r strôc wedi effeithio ar ei lleferydd</li></ul>Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.</td><td>1 marc</td></tr>
<tr><td></td><td>Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 006: 20 marc</td><td>30 marc</td></tr>
</table>

# Cwestiwn Set C Cynllun Marcio – Mair

| **Cynllun Marcio – Cwestiwn Set C Mair** | | |
|---|---|---|
| | **Uned 001: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (Oedolion)**<br>**Uned 006: Diogelu unigolion** | |

| **Cwestiwn** | **Canllaw ateb** | **Uchafswm marciau** |
|---|---|---|
| 1. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc<br><br>• Adeiladu ymddiriedaeth /cydberthynas<br>• Hybu iechyd a llesiant (emosiynol a/neu gorfforol)<br>• Cynnal hawliau/ hawliau dynol unigolion e.e. hawl i breifatrwydd<br>• Gwneud yn siŵr bod dewisiadau/ dymuniadau/safbwyntiau unigolion yn cael eu bodloni /ystyried<br>• Dangos eu bod nhw'n gwerthfawrogi cefndir Mair/<br>• Hybu cydraddoldeb/amrywiaeth/cynhwysiant<br>• Hybu annibyniaeth<br>• Cefnogi ymarfer person-ganolog<br>• Annog dewis, llais a rheolaeth/cydgynhyrchu/cydsyniad<br>• Bodloni gofynion rheoleiddiol/deddfwriaethol<br>• Osgoi gwrandawiadau disgyblu/erlyn/ffitrwydd i ymarfer<br>• Hybu diogelu<br>• Hybu cymryd risgiau mewn ffordd gadarnhaol<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 2. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob rheswm hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae'n caniatáu i Mair gael y gofal a'r gefnogaeth y cytunwyd arnynt<br>• Mae'n darparu parhad/cysondeb gofal a chefnogaeth<br>• Mae'n helpu i ganfod unrhyw fylchau yn y gwasanaeth a ddarperir.<br>• Mae gofal a chefnogaeth Mair yn cael ei fonitro a'i adolygu<br>• Mae'n ddull cyfannol i fodloni anghenion gofal a chefnogaeth Mair<br>• Mae Mair yn gwybod canlyniadau'r cynllun/yn cytuno â nhw | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae Mair yn gwybod beth i'w ddisgwyl/beth fydd yn digwydd yn ystod ymweliadau<br>• Mae gan Mair lais yn ei gofal a'i chefnogaeth/ mae hi'n cyfrannu at y cynllun personol<br>• Mae'n darparu gofal penodol i'r unigolyn/ mae Mair yn ganolog i'w gofal a'i chefnogaeth<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 3. | Dyfarnwch 1 marc am bob enghraifft, hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>• Cytuno ar hoff ddulliau cyfathrebu<br>• Rhoi amser i Mair/ Gwneud yn siŵr bod Mair yn gyfforddus cyn symud ymlaen i gam nesaf y gefnogaeth<br>• Dulliau cyfathrebu'r dogfennau gofal personol<br>• Bydd gweithwyr yn dangos opsiynau dillad i Mair un eitem ar y tro<br>• Bydd gweithwyr yn aros /adnabod bawd i fyny/ bawd i lawr<br>• Mae gan Cariad Mawr enw da am ofal person-ganolog<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 4. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 2 marc.<br><br>Gail<br>• Mae hi'n ymddwyn mwy fel gofalwr teulu gyda Mair/ ddim yn ymddwyn mor broffesiynol gyda Mair<br>• Dydy hi ddim yn deall/adnabod ffiniau proffesiynol<br>• Dydy hi ddim yn deall pwysigrwydd polisïau a gweithdrefnau<br>• Dydy hi ddim yn ymwybodol o'i hemosiynau/ ddim yn meddwl am sut mae ei phrofiad o ofalu am ei mam yn dylanwadu ar ei hymarfer<br>• Parhau â'i rôl gofalu ar ôl i Mair fynd i'r ysbyty<br>• Efallai ei bod hi'n deall sefyllfa Mair/empathi<br>• Dydy hi ddim wedi dilyn y cynllun personol ac mae hi wedi gwneud dyletswyddau y tu allan iddo | 2 farc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 5. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob enghraifft hyd at uchafswm o 4 marc.<br><br>Gail<br>• Dydy hi ddim yn dilyn y cynllun personol/ mae hi'n gwneud tasgau ychwanegol<br>• Dydy hi ddim yn cofnodi'r tasgau ychwanegol<br>• Dydy hi ddim yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad (e.e. trin arian/derbynebau)<br>• Dydy hi ddim yn hysbysu Cariad Mawr bod gan Mair anghenion ychwanegol<br>• Mae hi'n ffrindiau â Mair ar gyfryngau cymdeithasol/Dydy hi ddim yn dilyn y polisi cyfryngau cymdeithasol<br>• Mae hi'n anfon negeseuon at Mair dros y cyfryngau cymdeithasol<br>• Mae hi'n cymryd pwrs Mair<br>• Mae hi'n ymweld â Mair yn yr ysbyty<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 4 marc |
| 6. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob ffactor hyd at uchafswm o 2 farc.<br><br>Dylai gweithwyr<br>• Dilyn y Cod Ymarfer Proffesiynol/ gweithio o fewn ffiniau proffesiynol<br>• Glynu at y cynllun personol / peidio â darparu tasgau ychwanegol heb gyngor pellach/ymarfer cyson<br>• Glynu at ddyletswydd gofal i Mair/bodloni'r safonau ymarfer perthnasol<br>• Rhoi gwybod am unrhyw fylchau o ran darparu gwasanaethau er mwyn gallu gweithredu os oes angen. (e.e. roedd angen cefnogaeth ychwanegol ar Mair – siopa)<br>• Dilyn polisïau a gweithdrefnau wrth ymdrin ag arian unigolion (e.e. cofnodi, derbynebau)<br>• Rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn unol â rheoliadau diogelu.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 2 farc |
| 7. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc. | 3 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Esbonio ffiniau proffesiynol (e.e. chaiff unigolion ddim gwneud ffrindiau â gweithwyr)<br>• Esbonio peryglon/risgiau rhannu gwybodaeth bersonol ar-lein<br>• Esbonio peryglon/risgiau rhannu gwybodaeth ariannol<br>• Esbonio i Mair na chaiff hi rannu gwybodaeth fel lluniau/fideos o weithwyr<br>• Cynghori Mair i beidio â rhannu ei lleoliad/gosodiadau lleoliad<br>• Esbonio i Mair y peryglon/risgiau o dderbyn pobl/sefydliadau dydy hi ddim yn gyfarwydd â nhw.<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 8. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob cyfrifoldeb, hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Gweithio gydag unigolion i ganfod risgiau posibl / helpu unigolion i'w cadw eu hunain yn ddiogel<br>• Gwybod sut i roi gwybod am bryderon<br>• Adnabod arwyddion a symptomau cam-drin, niwed neu esgeulustod<br>• Hybu iechyd a llesiant unigolion<br>• Gwybod am wahanol fathau o gamdriniaeth a niwed<br>• Dilyn polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â diogelu/dyletswydd i roi gwybod<br>• Gwybod polisi chwythu'r chwiban y sefydliad<br>• Cadw unrhyw adroddiadau/nodiadau yn ffeithiol/ heb farn<br>• Ymateb yn briodol i unrhyw ddatgeliadau<br>• Esbonio rôl rhoi gwybod i unigolion h.y. peidio ag addo cadw dim byd<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| 9. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob unigolyn am 1 marc yn unig.<br><br>• Cymydog Gail<br>• Ffrind<br>• Aelod o'i theulu<br>• Eiriolwr Proffesiynol /Annibynnol<br>• Cynrychiolydd asiantaethau cynghori (e.e. Canolfan Cyngor ar Bopeth)<br>• Cyfreithiwr | 1 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | *Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 10. | **Dyfarnwch 1 marc** am ymateb cyfyngedig heb fawr o wybodaeth a dealltwriaeth am sefyllfaoedd a/neu weithredoedd allai gynyddu'r risg o gam-drin ariannol.<br>Dydy'r ymateb ddim yn gwneud cysylltiadau penodol rhwng sefyllfaoedd a/neu weithredoedd a Mair.<br>**Dyfarnwch 2 farc** am ymateb sylfaenol â rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am sefyllfaoedd a/neu weithredoedd allai gynyddu'r risg o gam-drin ariannol.<br>Mae'r ymateb yn ceisio gwneud rhai cysylltiadau rhwng y sefyllfaoedd a/neu'r gweithredoedd a Mair.<br>**Dyfarnwch 3 marc** am ymateb da â gwybodaeth a dealltwriaeth am sefyllfaoedd a/neu weithredoedd allai gynyddu'r risg o gam-drin ariannol.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau â sut mae'r sefyllfaoedd a/neu'r gweithredoedd dan sylw wedi cyfrannu at sefyllfa Mair.<br>**Dyfarnwch 4 marc** am ymateb rhagorol â gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am sefyllfaoedd a/neu weithredoedd allai gynyddu'r risg o gam-drin ariannol.<br>Mae'r ymateb yn gwneud cysylltiadau clir a manwl â sut mae'r sefyllfaoedd a/neu'r gweithredoedd dan sylw wedi cyfrannu at sefyllfa Mair<br><br>**Mae'r atebion yn debygol o gynnwys:**<br>• Mae Mair yn byw ar ei phen ei hun a does ganddi hi ddim teulu agos felly mae hi'n unig/ diffyg cefnogaeth i helpu i wneud penderfyniadau/rheoli arian.<br>• Mae nam lleferydd/oed/eiddilwch Mair yn ei gwneud hi'n oedolyn sy'n wynebu risg o gael ei hecsbloetio – er enghraifft, gallai gweithiwr honni mai dyna roedd yn meddwl bod Mair yn ei olygu<br>• Dyma'r tro cyntaf i Mair dderbyn gofal a chefnogaeth felly mae hi'n dibynnu ar weithwyr yn ymddwyn yn briodol/ymddiriedaeth<br>• Bydd Mair yn cael mwy o ymwelwyr/cefnogaeth felly mynediad mwy agored i'w chartref/ materion yn ymwneud â diogelu<br>• Mae Mair yn hoffi cadw symiau mawr o arian gyda hi/ risg o ddwyn<br>• Dydy Mair ddim yn gofyn am dderbynebau, felly methu olrhain ei gwario<br>• Mae Mair yn fodlon rhoi ei phwrs i Gail / yn ymddiried ynddi ac yn ei gadael ei hun heb ddim<br>• Mae Mair yn hapus â chost eitemau a dydy hi ddim yn holi Gail am y costau | 4 marc |

| Cwestiwn | Canllaw ateb | Uchafswm marciau |
|---|---|---|
| | • Mae gan Mair ei chartref/asedau ei hun felly gallai hi fod yn darged ar gyfer cam-drin ariannol / barn na fyddai hi'n gweld colli'r arian<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | |
| 11. | **Dyfarnwch 1 marc** am bob pwynt hyd at uchafswm o 3 marc.<br><br>• Mae'n gallu helpu i ganfod problemau â'i hymarfer ei hun (e.e. ddim yn cofnodi pryniadau)<br>• Mae'n gallu helpu i ganfod sut i wella ei hymarfer ei hun<br>• Gallai atal Gail rhag gwneud yr un camgymeriadau eto<br>• Mae'n gallu helpu i ganfod anghenion pellach o ran hyfforddiant/datblygiad<br>• Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd polisïau a gweithdrefnau/mae'n helpu Gail i ddeall eu pwysigrwydd<br>• Mae'n tynnu sylw at y safonau sy'n cael eu disgwyl gan weithwyr (e.e. Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol)<br>• Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd atebolrwydd am y pethau mae hi ei hun yn eu gwneud<br><br>*Dylai'r aseswr benderfynu drosto'i hun a yw am dderbyn unrhyw ymatebion dilys eraill sydd wedi'u darparu gan ymgeiswyr, nad ydyn nhw'n rhan o'r rhestr ar y cynllun marcio dangosol.* | 3 marc |
| | **Cyfanswm uned 001: 10 marc, uned 006: 20 marc** | **30 marc** |